GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

Cronfa Ddata Lleihau Niwed Cymru: Marwolaethau sy'n Gysylltiedig â Chyffuriau

Adroddiad blynyddol 2025 (data hyd at ddiwedd 2024)

Adroddiad ystadegol blynyddol ar farwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau yng Nghymru gan ddefnyddio ystadegau iechyd cenedlaethol a Chronfa Ddata Lleihau Niwed Cymru

Am Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn bodoli i ddiogelu a gwella iechyd a llesiant ac i leihau anghydraddoldebau iechyd i bobl yng Nghymru. Rydym yn gweithio'n lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, gyda'n partneriaid a'n cymunedau. Mae'r Rhaglen Camddefnyddio Sylweddau yn gweithio i fynd i'r afael â'r bygythiadau iechyd cyhoeddus presennol a rhai sy'n dod i'r amlwg yng Nghymru a hynny yn unol â'r amcan strategol cyffredinol i 'leihau anghydraddoldebau ac annhegwch iechyd, ac atal neu leihau clefydau trosglwyddadwy a chlefydau anhrosglwyddadwy, niwed ehangach a marwolaethau cynamserol sy'n gysylltiedig â defnyddio cyffuriau ac alcohol ac ymddygiadau risg cysylltiedig'.

Rhaglen Camddefnyddio Sylweddau

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Rhif 2 Capital Quarter

Stryd Tyndall

Caerdydd

CF10 4BZ

Rhif ffôn: 02920104496

Manylion cyswllt

Rick Lines, Pennaeth y Rhaglen Camddefnyddio Sylweddau, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Tŷ Matrix, Boulevard y Gogledd, Parc Matrix, Parc Menter Abertawe, SA6 8DP, Rick.Lines@wales.nhs.uk

Savannah King, Epidemiolegydd (Arbenigwr Dadansoddwr Gwybodaeth), Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2 Capital Quarter, Stryd Tyndall, CF10 4BZ, Savannah.King@wales.nhs.uk

Cydnabyddiaethau

Hoffai Iechyd Cyhoeddus Cymru ddiolch i bawb a gyfrannodd at y systemau data a gwyliadwriaeth a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn.
Gyda diolch arbennig i Elizabeth Walsh (IGDC) a chydweithwyr yn y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Cyhoeddwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, Caerdydd, DU.

Cyfeiriad a Awgrymir: Is-adran Diogelu Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru (2025). Cronfa Ddata Lleihau Niwed Cymru: Adroddiad Blynyddol Marwolaethau sy'n Gysylltiedig â Chyffuriau 2025 (data hyd at ddiwedd 2024). Caerdydd, Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Cynnwys

Cynnwys 3
Rhestr o'r prif fyrfoddau 4
Ffynonellau data 4
1 Crynodeb gweithredol 5
1.1 Canfyddiadau a thueddiadau allweddol 5
2 Atal gwenwyno angheuol gan gyffuriau opioid trwy ddosbarthu Naloxone (THN) i'w ddefnyddio gartref 8
2.1 Dosbarthu THN ledled Cymru 8
2.2 THN a ddefnyddiwyd mewn achosion o wenwyno angheuol a heb fod yn angheuol gan gyffuriau 9
2.3 Gofal dilynol 11
2.4 Unigolion a gafodd THN am y tro cyntaf 13
2.5 Ailgyflenwi THN 15
2.6 Dosbarthu THN yn ôl bwrdd iechyd 17
3 Marwolaethau oherwydd Cyffuriau yng Nghymru 22
3.1 Marwolaethau yn sgil Gwenwyno gan Gyffuriau 22
3.2 Marwolaethau nad ydynt yn Gyyslltiedig â Chamddefnyddio Cyffuriau 24
3.3 Marwolaethau yn sgil Camddefnyddio Cyffuriau 26
3.4 Proffil demograffig 27
3.5 Sylweddau 29
3.6 Amrywiad daearyddol 46
4 Adolygiadau o Wenwyno Angheuol a Heb Fod yn Angheuol gan Gyffuriau 62
4.1 Adolygiadau o Achosion o Wenwyno Angheuol gan Gyffuriau 62
4.2 Adolygiadau o achosion o Wenwyno Heb Fod yn Angheuol gan Gyffuriau 72
5 Atodiadau 74
5.1 Atodiad A - Diffiniadau a nodiadau ar ddehongli data 74
5.2 Atodiad B - Canllawiau ar adolygiadau o achosion o wenwyno angheuol a heb fod yn angheuol gan gyffuriau 75

Rhestr o’r prif fyrfoddau

BIPAB	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
BCA	Bwrdd Cynllunio Ardal
BIPBC	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
CRC	Cydlynydd Adolygu Achosion
BIP Cwm Taf	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
BIPCF	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
EASR	Cyfradd Ewropeaidd wedi’i Safoni yn ôl Oedran
BIPHDd	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
HRD	Cronfa Ddata Lleihau Niwed Cymru
ICD-10	Codau’r Dosbarthiad Rhyngwladol o Glefydau
ONS	Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
OST	Therapi amnewidion opioid
BIAP	Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
PWID	Pobl sy'n chwistrellu cyffuriau
BIPBA	Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
SCRA	Gweithyddion Derbynyddion Canabinoidau Synthetig
SMS	Gwasanaeth camddefnyddio sylweddau

Ffynonellau data

Mae'r data a geir yn yr adroddiad hwn wedi'i gasglu o ddwy brif ffynhonnell:

1. Y Gronfa Ddata Lleihau Niwed (HRD)
    a. Modiwl Naloxone i'w Ddefnyddio Gartref
    b. Adolygiadau Gwenwyno Angheuol a Heb Fod yn Angheuol gan Gyffuriau
2. Ystadegau marwolaethau poblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS)

1 Crynodeb gweithredol

1.1 Canfyddiadau a thueddiadau allweddol

1.1.1 Naloxone i'w Ddefnyddio Gartref (THN) - HRD

- Er mis Gorffennaf 2013, yn ôl yr adroddiadau, defnyddiwyd THN yn ystod 4,199 o ddigwyddiadau gwenwyno gan gyffuriau opioid, yr oedd pob un ohonynt yn farwolaeth oherwydd cyffuriau o bosib – dim ond yn achos 1.3 y cant (n=53) o achosion lle defnyddiwyd THN yr adroddwyd gwenwyno angheuol gan opioidau.
- Yn 2024, yn ôl yr adroddiadau, defnyddiwyd THN mewn 307 o achosion o wenwyno gan gyffuriau, sef cynnydd o 5.5 y cant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gyda <5 marwolaeth wedi'u hadrodd. Gwnaeth amlder y gofal dilynol, gan gynnwys defnyddio ambiwlansys ac arhosiadau yn yr ysbyty, gynyddu ychydig.
- Mae nifer y digwyddiadau cyflenwi ac unigolion newydd a gyflenwyd wedi cynyddu o gymharu â 2023. Cynyddodd cyfanswm y pecynnau THN a ddarparwyd yn 2024 22.3 y cant, i 8,229 o becynnau THN.
- Ceir amrywiadau rhanbarthol o hyd o ran darparu THN i'r rhai sydd mewn perygl o brofi neu weld achos o wenwyno gan gyffuriau opioid, ac i ba raddau y mae hynny'n digwydd, a sylwyd bod cyfraddau uwch o gitiau'n cael eu darparu ym Mhowys a Bae Abertawe.
- Ymhlith unigolion newydd y rhoddwyd cyflenwad o THN iddynt yn 2024, roedd dros hanner (53.9 y cant) wedi'u rhestru fel teulu / partner / gofalwyr neu weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl sydd mewn perygl o gael eu gwenwyno gan opioidau.
- Ymhlith y bobl sy'n chwistrellu cyffuriau ac sy'n defnyddio gwasanaethau rhaglenni nodwyddau a chwistrelli (NSP) yn rheolaidd, dim ond gwasanaethau NSP mewn fferyllfeydd y mae 36.0 y cant yn eu mynychu, lle mae darpariaeth THN yn parhau i fod yn gyfyngedig.
- Er i ddarpariaeth THN yn y gymuned barhau i gynyddu yn 2024, mae'r cyflenwad ar ôl rhyddhau o fewn carchardai wedi amrywio'n sylweddol ers 2014 pan ddechreuodd y rhaglen, gan ei gwneud hi'n anodd nodi tueddiadau cyson

1.1.2 Marwolaethau oherwydd cyffuriau yng Nghymru - y Swyddfa Ystadegau Gwladol

- Yn 2024, cofrestrwyd 417 o farwolaethau yn sgil gwenwyno gan gyffuriau yng Nghymru, sef cynnydd o 10.6 y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (n=377). O'r rhain, dosbarthwyd 288 (69.0 y cant) fel marwolaethau yn sgil

camddefnyddio cyffuriau. Nifer y marwolaethau oherwydd cyffuriau yn 2024 yw'r uchaf a gofnodwyd erioed yng Nghymru

- Dros y degawd diwethaf, mae marwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau wedi bod dros bum gwaith yn uwch ymhlith y rhai sy'n byw yn yr 20 y cant o ardaloedd mwyaf difreintiedig o gymharu â'r 20 y cant o ardaloedd lleiaf difreintiedig yng Nghymru.
- Yn 2024, cymhareb y marwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau oedd 2.6:1 rhwng gwrywod a benywod, oherwydd cynnydd yng nghyfran y marwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau ymhlith benywod.
- Digwyddodd y rhan fwyaf o farwolaethau ymhlith y rhai yn y grŵp oedran dros 50 oed, gan gyfrif am 34.4 y cant o holl farwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau (n = 99) yn 2024.
- Roedd 17 o farwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau mewn pobl o dan 25 oed, gan gyfrif am 5.9 y cant o'r marwolaethau yn sgil; camddefnyddio cyffuriau yn 2024, sef cynnydd o 2023.
- Fel yn y blynyddoedd blaenorol, y grŵp sylweddau a adroddwyd amlaf oedd opioidau, a adroddwyd mewn 200 o farwolaethau (69.4 y cant), ac roedd 55.0 y cant ohonynt yn ymwneud â heroin/morffin. Sylweddau eraill a adroddwyd yn gyffredin oedd cocên, pregabalin, bromazolam, methadon, a diazepam.
- Adroddwyd am ddefnyddio amryw gyffuriau mewn 62.2 y cant (n=179) o farwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau.
- Mae amrywiad daearyddol sylweddol yn parhau yng nghyfraddau marwolaethau camddefnyddio cyffuriau wedi'u safoni yn ôl oedran ledled Cymru, gyda chyfraddau awdurdodau lleol yn amrywio o 2.8 i 21.2 o farwolaethau fesul 100,000 o'r boblogaeth

1.1.3 Adolygiadau gwenwyno angheuol / heb fod yn angheuol gan gyffuriau - HRD

- Ers gweithredu'r broses adolygu cyflym ar farwolaethau oherwydd cyffuriau yn 2014, mae cyfanswm o 1,680 o adolygiadau o achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau a 1,637 o achosion o wenwyno heb fod yn angheuol gan gyffuriau wedi'u cynnal yng Nghymru.
- Adolygwyd 211 o achosion angheuol o wenwyno gan gyffuriau yn 2024, sef 73.3 y cant o'r marwolaethau hynny a gofnodwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol

- Mewn 85.7 y cant o achosion â lleoliad marwolaeth hysbys, digwyddodd yr achos o wenwyno gan gyffuriau mewn preswylfa breifat, gyda'r 14.3 y cant o achosion sy'n weddill yn digwydd mewn hostel neu le cyhoeddus.

- Adroddwyd bod 42.3 y cant o unigolion yn byw mewn tai ansicr neu eu bod heb gartref sefydlog (NFA) adeg eu marwolaeth. Lle adroddwyd amdanynt, cyhoeddwyd 88.6 y cant (n=124) o farwolaethau yn y fan a'r lle
- Yn 42.2 y cant o’r achosion a adolygwyd, ni adroddwyd am unrhyw gyswllt hysbys rhwng yr ymadawedig ac unrhyw wasanaethau lleol o ran iechyd a gofal cymdeithasol, neu wasanaethau cyfiawnder troseddol yn y 12 mis cyn y farwolaeth (n=89). O'r rhain, nid oedd 60.7 y cant (n=54) yn hysbys i unrhyw wasanaethau. Ychydig iawn o wybodaeth sydd ar gael am yr unigolion hyn
- Lle adroddwyd am unrhyw gyswllt â gwasanaethau o fewn 12 mis cyn y farwolaeth, roedd gan 95.1 y cant (n=116) hanes o salwch meddwl neu anhwylder seiciatrig wedi'i ddiagnosio
- Adroddwyd ar ganfyddiadau’r crwner ar gyfer 33.2 y cant o achosion angheuol a adolygwyd yn 2024, ac o’r rhain, cadarnhawyd bod 92.9 y cant yn gysylltiedig â chyffuriau.

2 Atal gwenwyno angheuol gan gyffuriau opioid trwy ddosbarthu Naloxone (THN) i'w ddefnyddio gartref

2.1 Dosbarthu THN ledled Cymru

Yn 2024 yng Nghymru, cyflenwyd THN o 99 o safleoedd cofrestredig. Mae nifer y safleoedd sy'n cyflenwi THN wedi cynyddu o'r naill flwyddyn i'r llall, o 11 safle 'peilot' a gymerodd ran yn 2009 i 99 yn 2024 (Ffigur 1 a Thabl 1).



Ffigur 1: Nifer y safleoedd yn dosbarthu THN, unigolion presennol a'r rhai 'newydd i'r gwasanaeth', a nifer y pecynnau THN a ddarparwyd, rhwng 2015 a 2024, Cymru

Er 1 Gorffennaf 2013, rhoddwyd 55,289 o becynnau THN i gyfanswm o 20,049 o unigolion[1,2] ledled Cymru. Mae nifer yr unigolion a'r pecynnau a gyflenwir wedi cynyddu'n gyson yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn 2024:

- Cafodd 4,339 o unigolion THN (cyflenwad neu ailgyflenwad), sef cynnydd o 14.8 y cant o 2023.
- Cafodd 2,476 o unigolion newydd THN, sef cynnydd o 14.4 y cant
- Cyflenwyd 8,229 o becynnau THN, sef cynnydd o 22.3 y cant

[1] Noder: Cyfrifwyd nifer yr unigolion y rhoddwyd pecynnau iddynt mewn adroddiadau blynyddol blaenorol fel swm 'Cyfanswm yr unigolion a gyflenwyd' yn Nhabl 1, ac felly roedd yn cynnwys dyblygu lle cyflenwyd pecyn i'r un unigolion dros sawl blwyddyn. Mae'r cyfanswm newydd hwn yn cyfrif am unigolion unigryw ar draws yr holl flynyddoedd, ac felly mae'n llai na'r cyfanswm a gyhoeddwyd mewn blynyddoedd blaenorol.

[2] Mae gan gynhyrchion THN ddyddiad dod i ben o ddwy i dair blynedd o'r adeg y cânt eu cynhyrchu, ac felly dylid eu disodli / eu hailgyflenwi cyn iddynt ddod i ben.

Tabl 1: Nifer y safleoedd, unigolion a gafodd y pecynnau a nifer y pecynnau THN a ddarparwyd yn ôl blwyddyn, 2015 i 2024

Blwyddyn	Nifer y safleoedd	Cyfanswm yr unigolion a gyflenwyd	Unigolion newydd a gyflenwyd	Pecynnau THN a gyflenwyd
2015	52	1,619	932	2,862
2016	58	2,630	1,394	4,388
2017	63	3,004	1,479	4,181
2018	54	2,991	1,316	4,356
2019	74	3,045	1,354	4,543
2020	64	2,775	1,052	4,520
2021	63	3,056	1,416	5,480
2022	77	3,533	1,860	6,587
2023	88	3,780	2,164	6,731
2024	99	4,339	2,476	8,229

Y Gronfa Ddata Lleihau Niwed Gorffennaf 2025

2.2 THN a ddefnyddiwyd mewn achosion o wenwyno angheuol a heb fod yn angheuol gan gyffuriau

Er mis Gorffennaf 2013 pan ddechreuodd y rhaglen, adroddwyd 4,199 o achosion lle defnyddiwyd THN yn ystod achos tybiedig o wenwyno gan opioidau. Mae nifer y defnyddiau a gofnodwyd o THN wedi parhau'n sefydlog i raddau helaeth ers 2021, er bod y nifer â chanlyniad anhysbys yn parhau i gynyddu (gweler Ffigur 2).



Ffigur 2: Nifer y defnyddiau a gofnodwyd o THN ar adeg ailgyflenwi yn ôl canlyniad, 2015 i 2024

2.2.1 Canlyniad, lleoliad, derbynnydd a gweinyddwr THN

Canlyniad

Cofnodwyd data ar ganlyniadau hysbys ar gyfer y rhan fwyaf o achosion tybiedig o wenwyno gan opioidau lle adroddwyd bod THN wedi'i ddefnyddio (gweler Tabl 2). O'r 307 o achosion a adroddwyd yn 2024:

- Adroddwyd am achos o wenwyno angheuol gan opioidau mewn 1.3 y cant (n<5) o achosion.
- Adroddwyd am wenwyno heb fod yn angheuol gan opioidau mewn 70.0 y cant (n=215) o achosion
- Ni chofnodwyd unrhyw ganlyniad mewn 28.7 y cant (n=88) o achosion

Mae cyfran yr achosion o wenwyno angheuol gan opioidau a adroddwyd yn parhau'n isel ac yn sefydlog dros amser.

Tabl 2: Canlyniad, lleoliad, derbynnydd, a gweinyddwr THN ar adeg y defnydd a adroddwyd, Cymru, 2015 i 2024

	2015	2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022	2023	2024
Achosion a gofnodwyd lle y defnyddiwyd THN	393	589	538	487	450	237	287	294	291	307
% Lle roedd y canlyniad yn hysbys	89%	92%	88%	92%	86%	91%	79%	80%	76%	71%
% Lle y cafwyd achos o wenwyno angheuol gan opioid *	<1.0%	1.5%	<1.0%	1.6%	1.3%	2.5%	1.4%	<1.0%	1%	1.3%
Derbynnydd y THN *										
% a roddwyd i 'ddeiliaid pecyn THN'	12%	15%	14%	17%	19%	30%	26%	25%	34%	31%
% a roddwyd i drydydd parti	88%	85%	86%	83%	81%	70%	74%	75%	66%	69%
Rhoddwr y THN *†										
% a roddwyd gan 'ddeiliad y pecyn THN'	64%	71%	73%	73%	67%	61%	61%	62%	54%	58%
% a roddwyd gan weithiwr proffesiynol / gweithiwr hostel	22%	11%	9%	9%	9%	13%	17%	11%	23%	20%
% a roddwyd gan gymar / aelod o'r teulu	14%	18%	18%	18%	24%	26%	22%	27%	23%	23%
Man lle y rhoddwyd THN *										
% a roddwyd mewn preswylfa breifat	59%	63%	65%	63%	66%	64%	58%	58%	53%	55%
% a roddwyd mewn hostel	18%	11%	8%	8%	10%	12%	18%	14%	21%	15%
% a roddwyd mewn man cyhoeddus	23%	25%	27%	29%	24%	23%	24%	28%	26%	29%

Y Gronfa Ddata Lleihau Niwed Gorffennaf 2025

† Lle y rhoddwyd pecyn THN gan drydydd parti

* Cyfran yr unigolion where known

Derbynnydd a gweinyddwr y THN

Yn 2024, adroddwyd derbynnydd y THN ar gyfer 80.1 y cant (n=246) o achosion o wenwyno gan opioidau a gofnodwyd ar y HRD. O'r rhain:

- Rhoddwyd THN i 'drydydd parti' (h.y. nid yr unigolyn y cyflenwyd y pecyn iddo'n wreiddiol) mewn 68.7 y cant o achosion
- Mae adroddiadau am becynnau a roddwyd i'r 'deiliad pecyn THN' a enwir wedi cynyddu'n gyffredinol dros y blynyddoedd i 31.3 y cant yn 2024.

Lleoliad

Er mwyn lleihau achosion o wenwyno angheuol a heb fod yn angheuol yn y dyfodol, mae'n bwysig cydnabod a nodi'r lleoliadau cyffredin ar gyfer achosion o wenwyno gan opioidau er mwyn nodi ymyriadau priodol a thargedu gwasanaethau'n well.

Yn 2024, cofnodwyd y lleoliad lle defnyddiwyd THN ar gyfer 80.1 y cant (n=246) o achosion. O'r rhain:

- Defnyddio THN mewn cartrefi preifat yw'r lleoliad mwyaf cyffredin o hyd, wedi'i adrodd mewn 55.3 y cant o achosion, gyda chynnydd yn benodol yng nghartref y cleient ei hun (Tabl 2 a Ffigur 3)
- Mae defnyddio THN mewn hosteli wedi lleihau yn y flwyddyn ddiweddaraf, ac fe'i hadroddir mewn 15.4 y cant o achosion.
- Cynyddodd y defnydd o THN mewn mannau cyhoeddus yn 2024, yn enwedig mewn lleoliadau dan do, gan gyfrif am 29.3 y cant o achosion. Gall hyn fod o ganlyniad i hyfforddiant a chyflenwad parhaus i weithwyr proffesiynol a grwpiau cyfoedion a chynnydd mewn cynlluniau 'ymatebwyr cyntaf' sydd ar gael o fewn rhai gwasanaethau yng Nghymru.



Ffigur 3: Lleoliad a gofnodwyd lle dywedir bod THN wedi'i ddefnyddio, 2015 i 2024

2.3 Gofal dilynol

Er bod THN yn parhau i fod yn ymyrraeth effeithiol ar gyfer lleihau achosion o wenwyno angheuol gan opioidau, mae effaith acíwt THN yn gyfyngedig o ran amser. Felly, mae gofal dilynol – gan gynnwys galw am barafeddyg/ambiwlans – yn hanfodol ym mhob achos o roi THN i sicrhau nad yw unigolyn yn atgwympo i gael ei

wenwyno gan opioidau. Cofnodwyd manylion ynghylch y cais am ofal dilynol ar gyfer 79.2 y cant (n=243) o achosion lle adroddwyd am ddefnyddio THN yn 2024. Gellir gweld crynodeb o'r camau a gymerwyd yn Nhabl 3 a Ffigur 4. Yn 2024:

- Galwyd am ambiwlans i ddod i 56.0 y cant o achosion (n=136) lle adroddwyd am ddefnyddio THN a gofal dilynol, sef cynnydd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol
- Mae nifer a chyfran yr achosion lle na alwyd am ambiwlans, a lle cofnodwyd gofal dilynol, wedi gostwng yn y flwyddyn ddiwethaf ac mae'n parhau i fod yn is na'r rhan fwyaf o flynyddoedd blaenorol
- Lle galwyd am ambiwlans, aethpwyd â'r unigolyn i'r ysbyty mewn 48.5 y cant (n= 66) o achosion a gwrthododd unigolion fynd i'r ysbyty mewn 25.0 y cant (n=34) o ddigwyddiadau.

Tabl 3: Gofal dilynol a gofnodwyd yn dilyn defnydd a adroddwyd o THN, 2015 i 2024

	2015	2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022	2023	2024
Achosion a gofnodwyd lle y defnyddiwyd THN	**393**	**589**	**538**	**487**	**450**	**237**	**287**	**294**	**291**	**307**
Galwyd am ambiwlans	**256**	**314**	**232**	**224**	**179**	**116**	**124**	**116**	**110**	**136**
Aed â'r person i'r Ysbyty	150	162	116	113	82	55	61	56	52	66
Gwrthododd y person fynd i'r Ysbyty	96	87	55	62	59	24	36	31	32	34
Dim camau pellach	10	65	61	49	38	37	27	29	26	36
Ni chafodd ambiwlans ei alw	**114**	**245**	**255**	**232**	**217**	**100**	**100**	**129**	**123**	**107**
No follow-on care recorded	**23**	**30**	**51**	**31**	**54**	**21**	**63**	**49**	**58**	**64**



Ffigur 4: Cyfran y defnyddiau a gofnodwyd o THN lle cofnodwyd gofal dilynol, Cymru, 2015 i 2024

2.4 Unigolion a gafodd THN am y tro cyntaf

Mae cyfanswm o 20,049 o unigolion wedi cael THN ers dechrau'r rhaglen. Cynyddodd nifer yr unigolion unigryw newydd a gafodd THN yng Nghymru 14.4 y cant, o 2,164 yn 2023 i 2,476 yn 2024. Er bod y nifer hwn yn parhau i gynyddu, gall cyfraddau cyflenwi i unigolion newydd leihau dros amser wrth i THN ddod yn gyffredin ymhlith y boblogaeth 'mewn perygl'.

Data o Gronfa Ddata Lleihau Niwed Cymru: Mae modiwl y Rhaglen Nodwyddau a Chwistrellau (NSP) yn dangos, yn 2024-25, fod 2,865 o bobl sy'n chwistrellu cyffuriau (PWID) yng Nghymru a oedd yn nodi eu bod yn defnyddio opioidau ac yn defnyddio gwasanaethau NSP yn rheolaidd. O'r rhain, mae 36.0 y cant yn defnyddio gwasanaethau Fferyllfa Gymunedol yn unig, gyda chyfraddau hyd yn oed yn uwch mewn rhanbarthau gwledig. Er bod THN wedi'i ddarparu gan bob NSP gwasanaeth camddefnyddio sylweddau arbenigol yng Nghymru, mae'r ddarpariaeth o fewn gwasanaethau NSP sy'n seiliedig ar Fferyllfeydd Cymunedol yn parhau i fod yn gyfyngedig iawn.



Ffigur 5: Nifer yr unigolion a gafodd gyflenwad o THN yn ôl blwyddyn, 2015 i 2024

2.4.1 Rôl unigolion newydd y rhoddwyd THN iddynt

Rhoddodd gwelliannau i Reoliadau Deddf Meddyginiaethau Dynol yn 2015 gyfleoedd i ystod ehangach o unigolion gael THN, gan gynnwys teulu, partneriaid a gofalwyr pobl yr ystyrir eu bod 'mewn perygl', a gweithwyr proffesiynol sy'n cael mwy o gysylltiad ag unigolion sy'n defnyddio opioidau. Yn 2024, roedd 51.7 y cant

(n=1,280) o unigolion newydd a gafodd THN naill ai'n deulu neu'n ofalwyr i unigolyn 'mewn perygl' (22.2 y cant) neu'n weithwyr proffesiynol (77.8 y cant). Mae nifer a chyfran y bobl 'mewn perygl' y rhoddir THN iddynt wedi cynyddu yn 2024 (42.5 y cant; Ffigur 6).

Mae diwygiadau ychwanegol wedi'u gwneud i Reoliadau Deddf Meddyginiaethau Dynol, gan gyflwyno THN trwynol fel dull paratoi amgen ar gyfer cyflenwi. Mae'r gwelliant hwn yn rhoi cyfle i ehangu dosbarthiad THN i grwpiau cyfoedion a phroffesiynol, yn enwedig mewn achosion lle ystyriwyd bod paratoad chwistrelladwy yn rhwystr rhag ei ddefnyddio.



Ffigur 6: Nifer yr unigolion newydd y rhoddwyd THN iddynt, yn ôl nodwedd risg a rôl, 2015 i 2024

2.4.2 Demograffeg unigolion sydd mewn perygl a oedd newydd gael cyflenwad o THN

Mae unigolion sydd mewn perygl yn cynnwys y rhai sy'n debygol o brofi neu weld achos o wenwyno gan opioidau ac maent yn cynnwys unigolion sy'n chwistrellu neu'n defnyddio opioidau gan gynnwys heroin a/neu’r rhai sy'n cael triniaeth amnewid opioidau (OST) fel methadon neu buprenorffin. Ymhlith y rhai a gafodd THN yn 2024, mae'r oedran a'r ystod canolrifol, a chyfran yr unigolion 50+ oed, i gyd wedi cynyddu ers 2015 (gweler Tabl 4). Mae'r data hwn yn gyson â chynnydd bach yn oedran canolrifol pobl sy’n chwistrellu cyffuriau (PWID) sy'n defnyddio opioidau sy'n cyrchu gwasanaethau NSP yng Nghymru.

Mae'r dosbarthiad yn ôl rhyw wedi amrywio dros amser, gyda chyfran yr unigolion gwrywaidd sy'n cael THN yn cynyddu i 71.4 y cant yn 2024 yn dilyn cyfraddau isel o 57.7 y cant yn 2023 (gweler Tabl 4).

Tabl 4: Demograffeg unigolion newydd yr ystyrir eu bod 'mewn perygl' o brofi achos o wenwyno gan opioidau y rhoddwyd THN iddynt, 2015 i 2024

Risk factor	2015	2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022	2023	2024
Unigolion newydd a gyflenwyd	725	1,119	1,120	1,040	904	771	930	993	879	1,052
Person 'mewn perygl' o gael ei wenwyno gan opioid	80.4%	80.2%	78.5%	76.5%	76.7%	74.7%	52.9%	49.1%	51.2%	47.0%
O dan 25	8.4%	7.8%	7.7%	8.0%	7.5%	7.8%	9.2%	9.6%	9.7%	9.8%
Dros 50	7.7%	8.0%	9.4%	10.0%	12.8%	14.8%	16.7%	16.1%	18.8%	21.4%
Oedran canolrifol (blynyddoedd)	36	36	37	38	38	38	38	39	39	40
% Dynion	75.0%	70.2%	69.5%	68.8%	70.6%	75.6%	73.5%	68.0%	57.7%	71.4%
Prif ffactor risg*										
Amrywiaeth o gyffuriau	56.8%	59.9%	63.9%	62.6%	58.0%	55.5%	49.6%	64.7%	70.5%	60.9%
Wedi gadael gofal dadwenwyno yn ddiweddar	9.7%	11.3%	11.7%	11.6%	9.9%	5.0%	3.3%	5.6%	6.8%	3.0%
Wedi gadael y carchar yn ddiweddar	19.5%	12.7%	11.1%	12.4%	17.8%	29.5%	30.5%	14.1%	6.4%	19.4%
Defnyddiwr opioid Newydd	14.0%	16.0%	13.4%	13.4%	14.3%	10.0%	16.7%	15.6%	16.3%	16.8%
% sy'n byw mewn tai anniogel / dim cartref sefydlog*	10.2%	13.1%	8.8%	12.3%	11.4%	5.9%	12.7%	3.5%	14.9%	11.0%
% Lle mae hanes o wenwyno gan opioid (erioed)*	46.3%	43.7%	41.5%	37.7%	43.7%	43.8%	45.5%	40.0%	31.8%	39.5%

* *Cyfran yr unigolion lle y cofnodwyd data ar y Gronfa Ddata Lleihau Niwed.

Cronfa Ddata Lleihau Niwed Cymru, Gorffennaf 2025

Mae cyfran yr unigolion 'mewn perygl' newydd y rhoddwyd THN iddynt a oedd yn adrodd tai ansicr / nad oedd ganddynt gartref sefydlog (NFA) wedi amrywio dros y blynyddoedd; gwelwyd y cyfraddau isaf yn 2022 (3.5 y cant) a'r cyfraddau uchaf yn 2023 (14.9 y cant). Yn 2024, gostyngodd y gyfran hon ychydig i 11.0 y cant, a oedd yn gyson â'r cyfartaledd dros y deng mlynedd diwethaf. Mae hyn yn groes i'r tueddiadau a welwyd o fewn gwasanaethau rhaglenni nodwyddau a chwistrelli, lle cynyddodd nifer yr unigolion â thai ansicr / heb gartref sefydlog a adroddodd eu bod yn defnyddio opioidau rhwng 2015/16 a 2020/21, ond lle gostyngodd ychydig yn y blynyddoedd diweddaraf.

Y risg uchaf o achos o wenwyno gan opioidau yw ymhlith y rhai sy'n defnyddio amryw o gyffuriau, a'r rhai a ryddhawyd o'r carchar yn ddiweddar. Mae cyfran yr unigolion a gafodd THN ar ôl cael eu rhyddhau o'r carchar yn ddiweddar wedi amrywio dros amser, gyda chyfraddau o 19.4 y cant yn 2024. Er bod hwn yn gynnydd mawr o gymharu â chyfraddau 2023, mae'n parhau i fod yn is na chyfraddau 2021.

2.5 Ailgyflenwi THN

Mae unigolion sy'n cario THN yn gallu casglu citiau newydd neu gitiau ychwanegol gan wasanaethau SMS. Yn 2024, roedd cyfanswm o 5,806 o ddigwyddiadau cyflenwi ledled Cymru. O'r rhain, roedd 3,286 yn ddigwyddiadau ailgyflenwi, sef gostyngiad o 13.8 y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. O'r holl unigolion y rhoddwyd THN iddynt yn 2024:

- Cyflenwyd THN unwaith i 82.7 y cant (n=3,620)

- Cyflenwyd THN ddwywaith i 10.5 y cant (n=434)
- Cyflenwyd THN deirgwaith neu fwy i 6.8 y cant (n=285)

Mae'r ffigurau hyn yn gyson i raddau helaeth â blynyddoedd blaenorol, er bod cyfran yr unigolion a gafodd gyflenwad unwaith yn unig wedi cynyddu ychydig yn ystod y blynyddoedd diwethaf, fel y dangosir yn Ffigur 7.



Ffigur 7: Cyfran yr unigolion a gafodd THN sawl gwaith o fewn cyfnod o flwyddyn, 2015 i 2024

2.5.1 Y rheswm dros ailgyflenwi

Darparwyd rheswm dros ailgyflenwi ar gyfer pob digwyddiad ailgyflenwi. Fel yn y blynyddoedd blaenorol, 'colli offer' yw'r rheswm mwyaf cyffredin dros ailgyflenwi, a gofnodwyd ar gyfer 39.0 y cant (n=1,282) o ddigwyddiadau yn 2024. Mae'r cyfraddau hyn wedi aros yn gyson i raddau helaeth ers 2015 gyda symiau bach o amrywiad, er y gwelwyd y gyfradd isaf a gofnodwyd yn 2024.

Gwelwyd cynnydd yng nghyfran y digwyddiadau ailgyflenwi sy'n deillio o gleientiaid yn 'dychwelyd am becyn sbâr' yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan gyrraedd uchafbwynt yn 2024 ar 33.4 y cant (n=1,099). Nododd 9.3 y cant arall (n= 307) eu bod wedi defnyddio eu pecyn THN blaenorol mewn achos o wenwyno gan gyffuriau, sy’n gyson â'r blynyddoedd diwethaf. Nid yw'n bosibl dangos faint o becynnau a gyflenwyd a allai fod wedi'u defnyddio mewn achos o wenwyno gan opioidau os nad yw'r unigolyn yn dychwelyd i ailgyflenwi. Ailgyflenwyd y 18.2 y cant sy'n weddill o unigolion oherwydd bod 'y pecyn yn hen' (n=598), sy'n fras gyson â'r blynyddoedd diwethaf.



Ffigur 8: Rhesymau dros ailgyflenwi fel yr adroddwyd, 2015 i 2024

2.6 Dosbarthu THN yn ôl bwrdd iechyd

Yn 2024, y Gyfradd Ewropeaidd wedi'i Safoni yn ôl Oedran (EASR) ar gyfer pob unigolyn y rhoddwyd THN iddynt yng Nghymru oedd 184.3 fesul 100,000 o'r boblogaeth, ac yn 152.2 fesul 100,000 o'r boblogaeth ar gyfer unigolion newydd, a'r ddau ohonynt yn gynnydd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae cymariaethau daearyddol rhwng byrddau iechyd (gweler Tabl 5, Ffigur 9, Tabl 6, Ffigur 10) yn tynnu sylw at amrywiad yn yr unigolion y rhoddwyd THN iddynt.



Ffigur 9: Cyfradd Ewropeaidd wedi'i safoni yn ôl oedran (EASR) yr holl unigolion unigryw a gafodd THN yn ôl Bwrdd Iechyd, 2015 i 2024

Tabl 5: Nifer cyfredol y safleoedd, unigolion a phecynnau THN a gyflenwyd yn ôl ardal Bwrdd Iechyd yng Nghymru, ochr yn ochr ag EASR fesul 100,000 o'r boblogaeth - yr holl unigolion y rhoddwyd THN iddynt, 2020 i 2024

				EASR individuals supplied				
Health board	**Sites supplying THN 2024***	**Kits issued 2024***	**Individuals supplied 2024***	**2020**	**2021**	**2022**	**2023**	**2024**
Aneurin Bevan	16	1,416	642	116.2	164.9	100.0	142.4	143.6
Betsi Cadwaladr	12	616	450	107.4	85.5	108.2	110.7	91.5
Cardiff and Vale	14	2,380	1,033	185.7	266.7	251.1	241.3	271.4
Cwm Taf Morgannwg	23	1,006	460	98.5	146.4	101.2	103.6	145.6
Hywel Dda	11	573	393	111.7	122.3	134.0	177.3	158.2
Powys	9	520	326	206.6	57.9	229.7	172.8	432.7
Swansea Bay	14	1,718	1,121	202.2	152.5	275.3	299.3	383.0
Wales †	99	8,229	4,339	115.7	136.8	145.6	150.2	184.3

Harm Reduction Database July 2025

* Includes THN supplied by Prisons located within Health Board

† Includes sites outside of Wales funded by the national THN programme reporting supply to Welsh residents

Ymhlith yr holl unigolion y rhoddwyd THN iddynt,cofnodwyd y cyfraddau uchaf o gyflenwad THN yn 2024 ym Mhowys a Bae Abertawe (432.7 a 383.0 fesul 100,000 o'r boblogaeth, yn y drefn honno), a gwelwyd y cyfraddau isaf ym mwrdd iechyd Betsi Cadwaladr (91.5 fesul 100,000 o'r boblogaeth).



Ffigur 10: Cyfradd Ewropeaidd wedi'i safoni yn ôl oedran (EASR) yr unigolion newydd y cyflenwyd THN iddynt yn ôl Bwrdd Iechyd, 2020 i 2024

Tabl 6: Cyfradd Ewropeaidd wedi'i safoni yn ôl oedran (EASR) fesul 100,000 o'r boblogaeth - unigolion newydd y rhoddwyd THN iddynt yn ôl ardal Bwrdd Iechyd yng Nghymru, 2020 i 2024

Byrddau Iechyd	Unigolion newydd a gyflenwyd 2024*	EASR Unigolion newydd a gyflenwyd				
		2020	2021	2022	2023	2024
Aneurin Bevan	549	82.0	129.5	82.0	121.9	122.4
Bae Abertawe	947	136.8	112.2	222.4	238.4	321.7
Betsi Cadwaladr	405	89.2	74.7	98.7	103.1	82.5
Caerdydd a'r Fro	782	140.2	199.4	187.0	185.8	203.2
Cwm Taf Morgannwg	360	65.4	108.3	71.8	76.0	113.2
Hywel Dda	344	88.2	100.9	112.5	157.1	137.8
Powys	289	129.9	37.5	199.2	142.9	389.1
Cymru †	2,476	84.6	104.2	117.2	123.7	152.2

Y Gronfa Ddata Lleihau Niwed Gorffennaf 2025

* Yn cynnwys THN a gyflenwyd gan Garchardai wedi'u lleoli yn y Bwrdd Iechyd

† Yn cynnwys safleoedd y tu allan i Gymru a ariennir gan y rhaglen THN genedlaethol a gofnododd gyflenwad i breswylwyr yng Nghymru

Ymhlith unigolion newydd y rhoddwyd THN iddynt,gwelwyd y cyfraddau uchaf o gyflenwad THN i unigolion newydd yn 2024 hefyd ym myrddau iechyd Mhowys a Bae Abertawe (389.1 a 321.7 fesul 100,000 o'r boblogaeth, yn y drefn honno), a gwelwyd y gyfradd isaf ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (82.5 fesul 100,000 o'r boblogaeth). Mae'r tueddiadau rhwng yr holl unigolion ac unigolion newydd yn unig y rhoddwyd THN iddynt yn gyson ar y cyfan, sy'n dangos mai cleientiaid newydd sy'n ysgogi'r cynnydd cyffredinol yng nghyfraddau'r unigolion sy'n cael eu cyflenwi, yn ôl pob tebyg.

2.6.1 Carchar yn erbyn y gymuned

Ar ôl cael eu rhyddhau o'r carchar, mae pobl sy'n defnyddio opioidau mewn mwy o berygl o gael eu gwenwyno'n angheuol a heb fod yn angheuol gan opioidau. Ar hyn o bryd, cyflenwir THN adeg rhyddhau pobl o'r carchar o fewn pedwar o'r chwe charchar sydd wedi'u lleoli yng Nghymru. Mae dau garchar arall sydd wedi'u lleoli ar ffin Cymru a Lloegr sy'n gartref i drigolion o Gymru hefyd wedi'u cynnwys yn y rhaglen THN ac yn adrodd drwy'r HRD. Yn 2024:

- Cyflenwyd THN adeg rhyddhau pobl o'r carchar ar 500 o achlysuron (8.6 y cant o'r holl ddigwyddiadau cyflenwi) i unigolion newydd neu fel ailgyflenwad, sef cynnydd sylweddol o 107.5 y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- O'r 500 o ddigwyddiadau cyflenwi yn y carchar, roedd 424 yn unigolion unigryw, sef cynnydd o 124.3 y cant o gymharu â'r 189 o unigolion y rhoddwyd THN iddynt yn 2023.
- At ei gilydd, cynyddodd y THN a gyflenwyd mewn carchardai yn 2024 o gymharu â 2023, pan oedd y cyflenwad ar ei isaf, ac mae'n parhau i fod yn fwy cyson â thueddiadau blaenorol (Tabl 7)

Tabl 7: Nifer y digwyddiadau cyflenwi THN a gynhaliwyd mewn carchardai, yn ôl carchar a blwyddyn, 2015 i 2024

Safle	2015	2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022	2023	2024
CEF Berwyn	0	0	3	22	97	186	181	79	0	0
CEF Caerdydd	146	256	270	233	163	151	198	230	144	212
CEF Eastwood Park*	0	43	223	229	186	57	73	122	44	0
CEF Parc	38	32	59	98	50	22	0	0	3	39
CEF Stoke Heath*	0	0	2	2	0	0	0	0	0	0
CEF Abertawe	116	149	237	191	125	42	11	41	50	249
Cymru	300	480	794	775	621	458	463	472	241	500

Y Gronfa Ddata Lleihau Niwed Gorffennaf 2025

* THN a gyflenwyd i drigolion o Gymru ym mhoblogaeth y carchar



Ffigur 11: Cyfran y digwyddiadau cyflenwi THN mewn carchardai o gymharu â safleoedd cymunedol, 2015 i 2024

3 Marwolaethau oherwydd Cyffuriau yng Nghymru

3.1 Marwolaethau yn sgil Gwenwyno gan Gyffuriau

Yn 2024, cofrestrwyd 417 o farwolaethau oherwydd gwenwyno gan gyffuriau yng Nghymru, sef cynnydd o 10.6 y cant ar y flwyddyn flaenorol, a'r nifer uchaf a gofnodwyd hyd yma. O'r marwolaethau yn sgil gwenwyno gan gyffuriau, diffiniwyd 69.1 y cant (n=288) fel marwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau, yn benodol marwolaethau oherwydd cyffuriau a fu'n ymwneud â chyffuriau anghyfreithlon a reolir o dan Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971 a deddfwriaeth gysylltiedig arall.

Bu cynnydd o 13.8 y cant mewn marwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau yn 2024 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gyda 288 o farwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau, sef y nifer uchaf a gofnodwyd erioed (gweler Ffigur 12). Mae nifer yr achosion o wenwyno gan gyffuriau nad ydynt wedi'u dosbarthu fel marwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau (marwolaethau nad ydynt yn gysylltiedig â chamddefnyddio cyffuriau) wedi aros yn gymharol sefydlog o'r flwyddyn flaenorol ar 129, i fyny o 124 yn 2023. Fodd bynnag, dyma ostyngiad bach yn y gyfran, sef o 32.9 y cant i 30.9 y cant.



Ffigur 12: Marwolaethau yn sgil gwenwyno gan gyffuriau yng Nghymru yn ôl y flwyddyn gofrestru a statws camddefnyddio cyffuriau, 2004 i 2024

Mae'r EASR fesul 100,000 o'r boblogaeth o farwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau yng Nghymru wedi cynyddu o 8.8 o farwolaethau fesul 100,000 o'r boblogaeth yn 2023 i 9.7 o farwolaethau fesul 100,000 o'r boblogaeth yn 2024. Ers 2005, mae gan Gymru gyfradd marwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau uwch fesul 100,000 o'r boblogaeth na Lloegr, ar wahân i ddwy flynedd, fel y

dangosir yn Ffigur 13. Dylid bod yn ofalus wrth wneud cymhariaeth uniongyrchol â marwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau yn yr Alban oherwydd gwahaniaethau yn y dulliau casglu data a'r oedi rhwng dyddiad marwolaethau a chofrestru marwolaethau.

Yn 2024, cofrestrwyd 1,017 o farwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau yn yr Alban,[3] sef cyfradd o 19.1 o farwolaethau fesul 100,000 o'r boblogaeth.

Mae cymariaethau rhwng rhanbarthau ledled Lloegr yn dangos mai Cymru oedd â'r gyfradd uchaf ond un fesul 100,000 o'r boblogaeth o farwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau yn 2024, ar ôl Gogledd-ddwyrain Lloegr (gweler Ffigur 14).



Ffigur 13: Cyfraddau wedi'u safoni yn ôl oedran fesul 100,000 o'r boblogaeth o farwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau yng Nghymru a Lloegr yn ôl blwyddyn cofrestru'r farwolaeth, gyda chyfyngau hyder o 95%, 2005 i 2024

[3] Marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau yn yr Alban, 2024. Cofnodion Cenedlaethol yr Alban. Ar gael yn: https://www.nrscotland.gov.uk/publications/drug-related-deaths-in-scotland-2024/



Ffigur 14: Cyfradd y marwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau fesul 100,000 o'r boblogaeth yng Nghymru o gymharu â rhanbarthau penodol yn Lloegr, 2005 i 2024

3.2 Marwolaethau nad ydynt yn Gyyslltiedig â Chamddefnyddio Cyffuriau

Yn 2024, cofrestrwyd 129 o farwolaethau yn sgil gwenwyno gan gyffuriau nad oeddent yn gysylltiedig â chamddefnyddio cyffuriau yng Nghymru, sef cynnydd o 4.0 y cant ar y flwyddyn flaenorol (gweler Tabl 8), gydag amrywiad daearyddol sylweddol yn ôl bwrdd iechyd preswyl.

Yr oedran canolrifol ar gyfer marwolaeth yn y categori hwn oedd 49 oed (amrediad 19-92), ac roedd 62.8 y cant yn wrywod. Y sylwedd mwyaf cyffredin a gofnodwyd oedd gwrth-iselyddion, a oedd yn bresennol mewn 17.1 y cant o’r marwolaethau yn sgil gwenwyno gan gyffuriau (n = 22; gweler Ffigur 15). Bu cynnydd mewn marwolaethau sy'n ymwneud â gwrth-iselyddion, parasetamol, a chodin, yn y flwyddyn ddiweddaraf, tra gwelwyd gostyngiad yn nifer y marwolaethau sy'n ymwneud â chyffuriau gwrthseicotig, propranolol, ac inswlin. Fodd bynnag, nid yw blwyddyn unigol yn ddigon i ganiatáu hyder wrth ddisgrifio tueddiadau newydd. Yn ystod y cyfnod hwn, cofnodwyd 'dim sylwedd wedi'i enwi' ar gyfer 76 o farwolaethau nad oeddent yn gysylltiedig â chamddefnyddio cyffuriau.



Ffigur 15: Nifer yr achosion o wenwyno gan gyffuriau heb fod yn gysylltiedig â chamddefnyddio cyffuriau yng Nghymru a oedd yn ymwneud â'r pum sylwedd mwyaf cyffredin a gofnodwyd, 2020 i 2024

Tabl 8: Data demograffig a chyfraddau ar gyfer gwenwyno gan gyffuriau nad oeddent yn gysylltiedig â chamddefnyddio cyffuriau, 2020 i 2024

	2020	2021	2022	2023	2024
Cymru					
EASR (n)	2.5 (75)	3.8 (112)	3.8 (113)	4.2 (124)	4.3 (129)
Oedran canolrifol (blynyddoedd)	49	46	45	48	49
Ystod oedran (blynyddoedd)	20-94	21-87	19-93	14-87	19-92
% Dynion	56%	61%	58%	58%	63%
EASR y Byrddau Iechyd (n)					
Aneurin Bevan	1.7 (10)	3.4 (19)	7.8 (43)	6.8 (38)	3.7 (22)
Betsi Cadwaladr	3.8 (25)	2.5 (17)	2.2 (15)	2.6 (18)	5.1 (33)
Cwm Taf Morgannwg	1.8 (8)	3.3 (14)	0.9 (4)	1.9 (8)	3.9 (17)
Caerdydd a'r Fro	0.9 (4)	3 (13)	0.8 (4)	4.3 (20)	2.6 (12)
Hywel Dda	4.6 (15)	4.6 (16)	3.3 (12)	4.9 (18)	3.7 (12)
Powys Teaching	3.4 (5)	0.5 (1)	2.5 (3)	3.1 (3)	4.7 (6)
Bae Abertawe	2.2 (8)	9.1 (32)	8.7 (32)	5.2 (19)	7.4 (27)

3.3 Marwolaethau yn sgil Camddefnyddio Cyffuriau

Dim ond gwenwyno gan gyffuriau a ddosberthir fel marwolaeth yn sgil camddefnyddio cyffuriau fel y'i diffinnir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol y bydd gweddill yr adran hon yn ei grynhoi. Marwolaeth yn sgil camddefnyddio cyffuriau yw gwenwyno gan gyffuriau lle mae'r achos sylfaenol wedi'i ddosbarthu fel:

- Camddefnyddio cyffuriau
- Dibyniaeth ar gyffuriau
- Mae gwenwyno gan gyffuriau ac unrhyw un o'r sylweddau a reolir o dan Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971 yn gysylltiedig

Yr achos marwolaeth sylfaenol mwyaf cyffredin a gofrestrwyd yn 2024 oedd gwenwyno damweiniol, sef 84.4 y cant (n = 243) o'r holl farwolaethau yn ystod y flwyddyn (gweler Ffigur 16). Er bod categorïau eraill wedi aros yn gymharol sefydlog, mae nifer y marwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau o wenwyno damweiniol wedi parhau i gynyddu. Mae’r holl farwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad waeth beth fo'r bwriad.

Mae Ffigur 16 yn dangos proffil marwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau yn ôl achos sylfaenol y farwolaeth fel yr adroddwyd ar y dystysgrif marwolaeth.



Ffigur 16: Achos sylfaenol y farwolaeth ar gyfer marwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau yng Nghymru yn ôl blwyddyn gofrestru, 2015 i 2024

3.4 Proffil demograffig

3.4.1 Mynegai Cymru ar gyfer amddifadedd lluosog

Mae niwed yn sgil cyffuriau fel arfer yn gysylltiedig ag amddifadedd cymdeithasol ac economaidd. O ystyried pob un o'r 2,023 o farwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau yng Nghymru a ddigwyddodd yn ystod y deng mlynedd diwethaf, digwyddodd 38.7 y cant ymhlith y rhai o'r 20 y cant o ardaloedd mwyaf difreintiedig (degraddau 1-2) (gweler Ffigur 17). Ar y cyfryw, roedd marwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau dros bum gwaith yn uwch ymhlith y rhai a oedd yn byw yn y cwintel â'r amddifadedd mwyaf o gymharu â'r cwintel â'r amddifadedd lleiaf.



Ffigur 17: Nifer cronnus y marwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau yn ôl degradd amddifadedd, 2015 i 2024 (1 = graddfa amddifadedd uchaf i 10 = graddfa amddifadedd isaf)

3.4.2 Rhyw ac oedran

Mae Ffigur 18 yn dangos nifer y marwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau wedi'u haenu yn ôl rhyw. Yn 2024, roedd cyfradd y marwolaethau ymhlith gwrywod ychydig dros 2.5 gwaith yn uwch nag ymhlith benywod. Cynyddodd nifer y marwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau yn fwy dramatig ymhlith benywod nag ymhlith gwrywod yn ystod y flwyddyn ddiweddaraf.



Ffigur 18: Marwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau yn ôl rhyw a'r flwyddyn gofrestru, 2015 i 2024, Cymru

Oedran canolrifol y marwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau oedd 45 oed (amrediad 17-88), sef gostyngiad o flwyddyn o gymharu â 2023. Roedd oedran canolrifol y farwolaeth yn is ymhlith gwrywod (44 oed; ystod 18-88) nag ymhlith benywod (47 oed; ystod 17-83). Mae Ffigurau 19 a 20 yn dangos cyfran a nifer y marwolaethau yn ôl grŵp oedran, rhyw, a blwyddyn cofrestru'r farwolaeth.

Yn 2024, y grŵp oedran dros 50 oed oedd y grŵp oedran mwyaf cyffredin, a adroddwyd mewn 34.4 y cant o'r holl farwolaethau oherwydd cyffuriau (n = 99). Roedd 17 o farwolaethau ymhlith pobl o dan 25 oed, a oedd yn cyfrif am 5.9 y cant o farwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau yn 2024, sef cynnydd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. O gymharu â 2023, bu cynnydd yn nifer y marwolaethau ymhlith benywod yn y categorïau oedran 40+ a 50+ oed. Gwelwyd cynnydd hefyd yn nifer y marwolaethau ymhlith gwrywod rhwng 35 a 44 oed. Gwelwyd cynnydd nodedig mewn marwolaethau hefyd ymhlith unigolion o dan 30 oed, yn enwedig ymhlith gwrywod yn y categorïau oedran dan 25 oed a 25-29 oed.



Ffigur 19: Marwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau yn ôl grŵp oedran, rhyw, a blwyddyn gofrestru, 2020 i 2024



Ffigur 20: Marwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau yn ôl grŵp oedran a blwyddyn gofrestru, 2015 i 2024

3.5 Sylweddau

Yn 2024, ac yn gyson â blynyddoedd blaenorol, y sylwedd mwyaf cyffredin a gofnodwyd ar gyfer marwolaeth yn sgil camddefnyddio cyffuriau yng Nghymru oedd heroin/morffin, a adroddwyd mewn 38.2 y cant o farwolaethau (n=110). Er

bod nifer y marwolaethau oherwydd heroin/morffin wedi cynyddu yn y flwyddyn ddiweddaraf, mae'r gyfran wedi gostwng (Ffigur 21). Sylweddau eraill a gofnodwyd yn gyffredin oedd:

- Cocên (27.4 y cant n=79)
- Pregabalin (20.1 y cant, n=58)
- Bromazolam (13.9 y cant, n=40)
- Methadon (12.2 y cant, n=35)
- Diazepam (11.8 y cant, n=34)



Ffigur 21: Y chwe sylwedd mwyaf cyffredin a gofnodwyd mewn marwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau yng Nghymru, 2015 i 2024

Mae marwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau yn aml yn ymwneud â chyfuniad o sylweddau, yn ogystal ag alcohol a meddyginiaethau ar bresgripsiwn yn unig (POMs) neu feddyginiaethau dros y cownter (OTCs), y cyfeirir atynt fel defnyddio amryw gyffuriau. Yn 2024, roedd mwy nag un sylwedd wedi'i gofnodi mewn 62.2 y cant (n=179) o farwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau, sy'n gyson â blynyddoedd blaenorol, fel y dangosir yn Ffigurau 22, 23 a 24. Nid yw sylweddau eilaidd yn cael eu hadrodd yn ddigonol gan nad yw pob sylwedd a nodwyd trwy sgrinio gwenwynegol wedi'i gofnodi ar y dystysgrif marwolaeth o bosibl.



Ffigur 22: Marwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau gyda sylweddau lluosog wedi'u cofnodi, 2014 i 2024

Gall defnyddio alcohol gyfrannu at farwolaeth yn sgil camddefnyddio cyffuriau oherwydd effeithiau anadlol cyfunol gwrth-iselyddion, yn enwedig pan gânt eu cymryd ochr yn ochr ag opioidau a/neu bensodiasepinau. Yn 2024, roedd tystiolaeth wenwynegol o alcohol yn 19.8 y cant (n=57) o'r marwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau, sy'n gyson â'r flwyddyn flaenorol, fel y dangosir yn Ffigur 23.



Ffigur 23: Marwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau yng Nghymru gyda sylweddau lluosog wedi'u cofnodi, 2014 i 2024

Mae Ffigur 24 yn rhoi mwy o fanylion am gyfuniadau o sylweddau a oedd yn ymwneud â marwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau a gofrestrwyd yn 2024.



Swyddfa Ystadegau Gwladol Hydref 2025

Ffigur 24: Nifer cymharol y marwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau a oedd yn ymwneud â chyffuriau unigol neu gyfuniadau o gyffuriau a nodwyd gyda'i gilydd ar unrhyw safle ac a gofnodwyd ar y dystysgrif marwolaeth yng Nghymru 2024

3.5.1 Opioidau

Heroin a Morffin

Opioidau yw'r grŵp sylweddau mwyaf cyffredin a gofnodwyd mewn marwolaethau camddefnyddio cyffuriau yng Nghymru. Yn 2024, roedd 69.4 y cant o'r marwolaethau yn ymwneud ag opioid (n = 200), o gymharu â 66.0 y cant yn y flwyddyn flaenorol. O'r 200 o farwolaethau oherwydd opioidau, roedd 110 yn ymwneud â heroin/morffin (55 y cant). Roedd y 90 o farwolaethau eraill yn ymwneud ag o leiaf un opioid arall fel methadon, codin neu tramadol.



Ffigur 25: Marwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau yng Nghymru, yn ôl y grŵp sylweddau a blwyddyn cofrestru'r farwolaeth, 2015 i 2024

Oedran canolrifol y marwolaethau oherwydd heroin/morffin oedd 46 oed, a chyfran y marwolaethau a oedd yn ymwneud â gwrywod oedd 70 y cant yn 2024. Dangosir data demograffig ar gyfer marwolaethau oherwydd heroin/morffin yn Nhabl 9.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg oedd â'r nifer a'r gyfradd uchaf o farwolaethau yn ymwneud â heroin/morffin, gan gyfrif am 29.1 y cant o'r marwolaethau oherwydd heroin/morffin yng Nghymru yn 2024. Cynyddodd yr EASR blwyddyn unigol fesul 100,000 o'r boblogaeth ar gyfer y rhanbarth hwn o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, sef o 5.7 yn 2023 i 7.5 yn 2024. Yr unig ranbarthau lle gwelwyd gostyngiad yn yr EASR fesul 100,000 o'r boblogaeth oedd Byrddau Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Hywel Dda.

Tabl 9: Crynodeb o ddata demograffig mewn perthynas â marwolaethau yn ymwneud â heroin/morffin yn ôl Bwrdd Iechyd, gan gynnwys cyfraddau Ewropeaidd wedi'u safoni yn ôl oedran (EASR) fesul 100,000 o'r boblogaeth (dangosir nifer y marwolaethau mewn cromfachau), 2020 i 2024

	2020	2021	2022	2023	2024
Cymru					
EASR (n)	2.3 (66)	3.3 (93)	2.3 (64)	3.5 (102)	3.7 (110)
Oedran canolrifol (blynyddoedd)	39.5	41	44	46	46
Ystod oedran (blynyddoedd)	20-74	17-73	22-70	19-73	17-77
% Dynion	70%	68%	67%	77%	70%
EASR y Byrddau Iechyd (n)					
Aneurin Bevan	0.5 (3)	1.9 (10)	1.7 (9)	4 (23)	2.9 (16)
Betsi Cadwaladr	2.1 (13)	1.3 (8)	1.1 (7)	1.3 (8)	2.4 (15)
Cwm Taf Morgannwg	2.2 (9)	6.8 (28)	3.3 (14)	5.7 (23)	7.5 (32)
Caerdydd a'r Fro	2.2 (10)	2.1 (10)	2.4 (12)	2.5 (12)	3.6 (17)
Hywel Dda	1.8 (6)	4.9 (16)	3.2 (10)	7.3 (24)	3.9 (13)
Bae Abertawe	6.6 (24)	4.3 (15)	3.6 (12)	3.1 (11)	3.6 (13)
Powys	1 (1)	4.8 (6)	0 (0)	0.5 (1)	2.8 (4)

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2025

Yn 2024, cofnodwyd bod 27.3 y cant o farwolaethau oherwydd heroin/morffin (n=30) heb ymwneud ag unrhyw sylwedd arall, sy'n gyson â ffigurau 2023 (n=31, 30.4 y cant). Roedd y 72.7 y cant (n = 80) yn weddill o farwolaethau yn ymwneud â heroin/morffin yn cynnwys o leiaf un sylwedd arall (gweler Ffigur 26).



Ffigur 26: Marwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau yn ymwneud â heroin/morffin sy'n cynnwys gwahanol grwpiau o sylweddau yn ôl y flwyddyn gofrestru, 2020 i 2024

Opioidau eraill – nad ydynt yn heroin/morffin

Roedd 101 o farwolaethau lle cofnodwyd o leiaf un opioid penodedig, heblaw heroin/morffin. Er bod cyfran o'r marwolaethau hyn hefyd yn ymwneud â heroin/morffin, nid oedd y rhan fwyaf ohonynt yn cynnwys y cyffuriau hynny (gweler Ffigur 27).



Ffigur 27: Marwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau yng Nghymru yn ymwneud ag opioidau eraill, yn ôl blwyddyn cofrestru'r farwolaeth, 2015 i 2024

Yr opioid mwyaf cyffredin a gofnodwyd, heblaw am heroin/morffin, oedd methadon (n=35; gweler Ffigur 28). Mae nifer y marwolaethau sy'n ymwneud â methadon wedi parhau'n uchel ac mae'n gyson â'r blynyddoedd diwethaf. Opioidau cyffredin eraill a gofnodwyd oedd codin (n = 20), tramadol (n = 9) a dihydrocodein (n = 14). Yn 2024, cofnodwyd 1 farwolaeth a fu'n ymwneud â fentanyl. Mae nifer y marwolaethau yn ymwneud ag 'opiadau amhenodol' yn parhau i fod yn gyson â'r blynyddoedd diwethaf.



Ffigur 28: Marwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau a oedd yn ymwneud ag opioidau eraill (heblaw heroin/morffin) yn ôl blwyddyn cofrestru'r farwolaeth a'r sylwedd, 2015 i 2024

Oedran canolrifol y marwolaethau a oedd yn ymwneud ag 'opioidau eraill' oedd 45 oed o gymharu â 46 oed ar gyfer y marwolaethau yn ymwneud â heroin/morffin, ac roedd 68 y cant yn wrywod. Cofnodwyd y nifer a'r gyfradd uchaf o farwolaethau y sgil camddefnyddio cyffuriau yn ymwneud ag opioidau eraill ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, gyda 3.9 o farwolaethau fesul 100,000 o'r boblogaeth (n = 23; gweler Tabl 10).

Tabl 10: Proffil demograffig y marwolaethau a fu'n ymwneud ag opioidau eraill yn ôl Bwrdd Iechyd, gan gynnwys EASR fesul 100,000 o'r boblogaeth (nifer y marwolaethau mewn cromfachau)

	2020	2021	2022	2023	2024
Cymru					
EASR (n)	1.7 (49)	2 (57)	2.1 (61)	2.2 (65)	2.7 (82)
Oedran canolrifol (blynyddoedd)	45	45	46	48	45
Ystod oedran (blynyddoedd)	17-77	17-83	18-94	27-92	20-88
% Dynion	82%	67%	72%	63%	68%
EASR y Byrddau Iechyd (n)					
Aneurin Bevan	0.3 (2)	1.6 (9)	2.4 (13)	2.4 (13)	3.9 (23)
Betsi Cadwaladr	1.8 (12)	2.3 (15)	2.7 (17)	1.9 (12)	1.8 (12)
Cwm Taf Morgannwg	2.3 (10)	2.2 (9)	3.1 (13)	2.9 (12)	3.5 (15)
Caerdydd a'r Fro	0.7 (3)	1.8 (8)	1.1 (5)	2.9 (13)	3 (15)
Hywel Dda	1.2 (4)	1.7 (6)	1.7 (6)	2.3 (8)	1.6 (6)
Bae Abertawe	3.9 (14)	3 (10)	1.4 (5)	1.8 (7)	3.2 (11)
Powys	4.6 (4)	0 (0)	1.2 (2)	0 (0)	0 (0)

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2025

Ymhlith y 101 o farwolaethau yn ymwneud ag opioidau eraill, nid oedd unrhyw sylwedd arall wedi'i gofnodi ar gyfer 24.7 y cant (n=25). Yn y 76 o farwolaethau sy'n weddill, mae sylweddau a gofnodwyd ochr yn ochr ag opioidau yn cynnwys bensodiasepinau, gabapentinoidau, gwrth-iselyddion, neu o leiaf un sylwedd arall (gweler Ffigur 29).



Ffigur 29: Marwolaethau cysylltiedig ag opioidau eraill yn ymwneud â gwahanol grwpiau o sylweddau yn ôl blwyddyn gofrestru, 2020 i 2024

3.5.2 Bensodiasepinau

Adroddwyd am bensodiasepinau mewn 28.8 y cant o farwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau a gofrestrwyd yn 2024 (n = 83), a'r rhain oedd y grŵp sylweddau mwyaf cyffredin ond un a adroddwyd ar ôl opioidau. Mae Ffigur 30 yn dangos nifer y marwolaethau sy'n ymwneud â gwahanol gategorïau o bensodiasepinau. Y bensodiasepin a adroddwyd amlaf oedd Bromazolam, a adroddwyd mewn 40 o farwolaethau yn 2024. Roedd bensodiasepinau eraill a restrwyd yn cynnwys Diazepam (n = 34), Alprazolam (n = 6), a Flubromazolam (n = 5).

Mae adroddiadau diweddar wedi dangos cynnydd mewn marwolaethau sy'n ymwneud â bensodiasepinau mewn rhanbarthau eraill o'r DU. Gwelwyd cynnydd cyffredinol mewn marwolaethau sy'n ymwneud â bensodiasepinau yn yr Alban ers 2014, ac eithrio 2022 a 2024.[4] Er mai etizolam oedd y bensodiasepin mwyaf cyffredin a gofnodwyd o'r blaen, mae'r nifer hwn wedi gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf, tra bod marwolaethau sy'n ymwneud â bromazolam wedi cynyddu'n gyflym yn 2023, yn debyg i'r tueddiadau a welwyd yng Nghymru.



Ffigur 30: Marwolaethau sy'n ymwneud â bensodiasepinau yn ôl y flwyddyn gofrestru a'r sylwedd, 2015 i 2024[5]

Yr oedran canolrifol ar gyfer marwolaethau yn ymwneud â bensodiasepinau oedd 43 oed, ac roedd 76 y cant yn wrywod (gweler Tabl 11). Adroddwyd y nifer a'r gyfradd uchaf yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, gan gyfrif am 26.5 y cant o'r holl farwolaethau yn ymwneud â bensodiasepinau.

[4]Marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau yn yr Alban, 2024. Cofnodion Cenedlaethol yr Alban. Ar gael yn: https://www.nrscotland.gov.uk/publications/drug-related-deaths-in-scotland-2024/

[5] Noder: Gellir cyfrif unigolyn fwy nag unwaith os oedd gwahanol bensodiasepinau yn ymwneud â'r achos, felly ni fydd y categorïau'n cyfateb i gyfanswm y flwyddyn.

Tabl 11: Proffil demograffig marwolaethau yn ymwneud â bensodiasepinau yn ôl Bwrdd Iechyd, EASR fesul 100,000 o'r boblogaeth (dangosir nifer y marwolaethau mewn cromfachau), 2020 i 2024

	2020	2021	2022	2023	2024
Cymru					
EASR (n)	1.2 (35)	2.2 (61)	1.9 (53)	2.4 (67)	2.8 (83)
Oedran canolrifol (blynyddoedd)	40	42	41	43	43
Ystod oedran (blynyddoedd)	20-71	19-65	18-70	24-58	22-83
% Dynion	71%	82%	77%	82%	76%
EASR y Byrddau Iechyd (n)					
Aneurin Bevan	0 (0)	0.4 (2)	1.4 (7)	2.5 (14)	3.2 (18)
Betsi Cadwaladr	0.2 (1)	0.2 (1)	0.3 (2)	0.2 (1)	0.5 (3)
Cwm Taf Morgannwg	2.7 (11)	4.4 (18)	3.5 (15)	4.1 (17)	5.2 (22)
Caerdydd a'r Fro	1.3 (6)	2.5 (11)	1.6 (7)	2.3 (11)	2.7 (13)
Hywel Dda	0.5 (2)	5.1 (16)	2.8 (9)	4.8 (15)	4.6 (16)
Powys Teaching	1.9 (2)	0.7 (1)	0.9 (1)	0 (0)	0 (0)
Bae Abertawe	3.5 (13)	3.4 (12)	3.6 (12)	2.6 (9)	2.9 (11)

Roedd bron pob marwolaeth yn ymwneud â bensodiasepinau yn cynnwys sylweddau eraill, yn enwedig opioidau. O'r 83 o farwolaethau yn ymwneud â bensodiasepinau, rhestrwyd 67 ochr yn ochr ag o leiaf un opioid, a rhestrwyd 19 ochr yn ochr â chyffuriau nad ydynt yn opioidau yn unig (gweler Ffigur 31). Roedd <5 o farwolaethau heb unrhyw sylwedd arall wedi'i gofnodi.



Ffigur 31: Marwolaethau yn ymwneud â bensodiasepinau a grwpiau sylweddau gwahanol ychwanegol yn ôl y flwyddyn gofrestru, 2020 i 2024

3.5.3 Cocên

Yn 2024, cofnodwyd cocên mewn 79 o farwolaethau, sef 27.4 y cant o'r holl farwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau, sef nifer uchaf ond dau ar ôl opioidau a bensodiasepinau. Bu cynnydd sylweddol yn nifer y marwolaethau yn ymwneud â chocên dros y pum mlynedd diwethaf. Mae'r duedd hon yn cyd-ddigwydd â chynnydd a welwyd mewn arosiadau yn yr ysbyty yn ymwneud â chocên a adroddwyd ac unigolion yn ymgyflwyno am driniaeth o fewn gwasanaethau camddefnyddio sylweddau. Nid yw'n bosibl gwahaniaethu rhwng marwolaethau yn ymwneud â chrac neu gocên powdr.

Bu cynnydd yng nghyfran y marwolaethau lle mai cocên oedd yr unig sylwedd a restrwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf (gweler Ffigur 32). Lle mae defnyddio amryw gyffuriau wedi'i nodi, y sylweddau cyffredin a restrwyd ochr yn ochr â chocên yw heroin/morffin, bensodiasepinau, gabapentinoidau, ac opioidau eraill (gweler Ffigur 33).



Ffigur 32: Marwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau yn ymwneud â chocên fel yr unig sylwedd a gofnodwyd, a chocên ochr yn ochr ag o leiaf un sylwedd arall, yn ôl blwyddyn cofrestru'r farwolaeth, rhwng 2015 a 2024.

Tabl 12: Proffil demograffig marwolaethau yn ymwneud â chocên, yn ôl Bwrdd Iechyd, gan gynnwys EASR fesul 100,000 o'r boblogaeth (gyda nifer y marwolaethau mewn cromfachau), 2020 i 2024

	2020	2021	2022	2023	2024
Cymru					
EASR (n)	1.7 (47)	1.7 (47)	1.8 (52)	2.3 (65)	2.7 (79)
Oedran canolrifol (blynyddoedd)	39	41	36.5	41	43
Ystod oedran (blynyddoedd)	21-58	19-59	21-62	21-57	18-79
% Dynion	79%	81%	88%	91%	78%
EASR y Byrddau Iechyd (n)					
Aneurin Bevan	0.4 (2)	0.5 (3)	3.1 (16)	3.8 (21)	2.3 (13)
Betsi Cadwaladr	1.8 (11)	1.7 (10)	1.1 (7)	1.8 (11)	2.2 (14)
Cwm Taf Morgannwg	1.5 (6)	2.1 (9)	1.9 (8)	1.9 (8)	3.5 (16)
Caerdydd a'r Fro	1.2 (5)	1.3 (6)	1 (5)	0.9 (5)	1.7 (8)
Hywel Dda	0 (0)	1.7 (5)	2 (6)	2.9 (9)	3.1 (10)
Bae Abertawe	5.8 (21)	4 (14)	2.6 (9)	2.9 (11)	5.1 (18)
Powys	2.3 (2)	0 (0)	1.1 (1)	0 (0)	0 (0)

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2025

Oedran canolrifol y marwolaethau yn ymwneud â chocên yn 2024 oedd 43 oed (Tabl 12). Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a gofnododd y nifer a'r gyfradd uchaf o farwolaethau yn ymwneud â chocên yn 2024, sef 5.1 marwolaeth fesul 100,000 (n=18).

Gwelwyd cynnydd cyson yn nifer y marwolaethau oherwydd cocên a oedd hefyd yn ymwneud â heroin/morffin a/neu bensodiasepinau dros y blynyddoedd diwethaf (Ffigur 33).



Ffigur 33: Marwolaethau yn ymwneud â chocên a grwpiau sylweddau gwahanol ychwanegol yn ôl y flwyddyn gofrestru, 2020 i 2024

3.5.4 Symbylyddion a sylweddau eraill

Yn 2024, roedd 25.0 y cant o'r marwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau yn ymwneud â sylweddau nad ydynt yn opioidau (n = 72), sef gostyngiad o 9 pwynt canran o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae nifer y marwolaethau yn ymwneud â chocên wedi cynyddu'n gyson ers 2020, ac ef oedd y sylwedd a gofnodwyd amlaf mewn marwolaethau oherwydd cyffuriau nad ydynt yn opioidau yn 2024 (55.5 y cant).

Dros y degawd diwethaf, mae Ecstasi/MDMA wedi'i gofnodi mewn 52 o farwolaethau gan gynnwys marwolaethau sy'n ymwneud ag opioidau (y mae 30 ohonynt wedi digwydd ers 2020). Cofnodwyd 35 o farwolaethau gydag Ecstasi/MDMA yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, gyda'r nifer uchaf yn 2019 (Gweler Ffigur 34).



Ffigur 34: Marwolaethau oherwydd cyffuriau nad ydynt yn opioidau sy'n ymwneud â symbylyddion a sylweddau amhenodol yn ôl y sylwedd a ddewiswyd a blwyddyn cofrestru'r farwolaeth, 2015 i 2024

Mae Ffigur 35 yn rhoi trosolwg o nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â phob sylwedd unigol dros y 5 mlynedd diwethaf.



Ffigur 35: Nifer y marwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau yng Nghymru yn ôl sylwedd, 2020 i 2024

3.6 Amrywiad daearyddol

3.6.1 Trosolwg Cymru

Mae pob cyfradd marwolaethau yn yr adran hon wedi'i chyfrifo fel EASR fesul 100,000 o'r boblogaeth. Yn 2024, yr EASR ar gyfer marwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau yng Nghymru oedd 9.7 o farwolaethau fesul 100,000 o'r boblogaeth. Yn ystod y cyfnod hwn, gwelwyd y cyfraddau uchaf ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, gyda chyfradd o 15.0 o farwolaethau fesul 100,000 o'r boblogaeth (gweler Ffigur 36 a Thabl 13). Gwelwyd y gyfradd isaf o farwolaethau ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys, gyda 2.8 o farwolaethau fesul 100,000 o'r boblogaeth.



Ffigur 36: EASR o farwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau fesul 100,000 o'r boblogaeth yn ôl bwrdd iechyd, 2020 i 2024

Mae amrywiad sylweddol yng nghyfraddau marwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau o fewn ardaloedd byrddau iechyd, ar lefel awdurdod lleol, fel y dangosir yn Nhabl 13 a Ffigur 37.

Tabl 13: EASR fesul 100,000 o'r boblogaeth a nifer y marwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau (mewn cromfachau) yn ôl bwrdd iechyd, awdurdod lleol, a blwyddyn cofrestru'r farwolaeth, 2020 i 2024

	2020	2021	2022	2023	2024
Aneurin Bevan	**2.1 (12)**	**4.4 (24)**	**6.5 (35)**	**9.9 (56)**	**9.7 (55)**
Blaenau Gwent	1.7 (1)	5.3 (3)	5 (3)	16.9 (11)	7.6 (5)
Caerffili	1 (2)	7.1 (12)	8.7 (14)	8.8 (15)	9.3 (15)
Sir Gaerfyrddin	4.9 (4)	0 (0)	2.3 (2)	5.7 (5)	12.9 (11)
Casnewydd	1.8 (3)	5.2 (8)	8.6 (13)	9.4 (15)	11.3 (18)
Torfaen	2.3 (2)	1.3 (1)	3.6 (3)	11 (10)	6.3 (6)
Betsi Cadwaladr	**5.6 (35)**	**6.1 (38)**	**5.4 (35)**	**5.9 (37)**	**7.8 (49)**
Conwy	5 (5)	9.4 (9)	5.3 (6)	10 (10)	6.8 (7)
Sir Ddinbych	2.5 (2)	2.2 (2)	5.3 (5)	3.9 (4)	10.6 (9)
Sir y Fflint	3.5 (5)	5.7 (8)	2.8 (4)	3.8 (6)	7.7 (11)
Gwynedd	3.9 (4)	5 (6)	8.1 (9)	9.4 (9)	9.2 (10)
Ynys Môn	11.4 (7)	1.8 (1)	3.5 (2)	3.8 (2)	8.2 (5)
Wrecsam	9.3 (12)	9.4 (12)	7 (9)	4.7 (6)	5.4 (7)
Cwm Taf Morgannwg	**5.7 (24)**	**10.4 (43)**	**8.1 (34)**	**12.4 (51)**	**15 (65)**
Pen-y-bont ar Ogwr	7.6 (11)	10.6 (14)	7.7 (11)	10.2 (14)	16.6 (23)
Merthyr Tudful	7.2 (4)	13.9 (8)	7 (4)	15.2 (8)	21.2 (12)
Rhondda Cynon Taf	4.2 (9)	9.4 (21)	8.7 (19)	13.2 (29)	12.8 (30)
Caerdydd a'r Fro	**3.1 (14)**	**6.2 (29)**	**5.9 (28)**	**6.6 (31)**	**8.6 (42)**
Caerdydd	3.1 (10)	7.4 (26)	5.5 (19)	7.3 (25)	7.7 (28)
Bro Morgannwg	3.1 (4)	2.4 (3)	7.2 (9)	5.1 (6)	10.3 (14)
Hywel Dda	**3.6 (12)**	**8.8 (29)**	**6.4 (21)**	**11.1 (37)**	**8.3 (28)**
Sir Gaeryrddin	4 (7)	8.9 (15)	3.1 (5)	15.8 (27)	11.1 (18)
Ceredigion	5.6 (3)	4.4 (3)	7.8 (5)	0 (0)	7.8 (5)
Sir Benfro	2.1 (2)	11.2 (11)	10.4 (11)	9.5 (10)	4.2 (5)
Powys	**7.6 (7)**	**4.8 (6)**	**3.2 (4)**	**3.5 (4)**	**2.8 (4)**
Powys	7.6 (7)	4.8 (6)	3.2 (4)	3.5 (4)	2.8 (4)
Bae Abertawe	**12.3 (45)**	**11.7 (41)**	**13.9 (48)**	**10.2 (37)**	**12.6 (45)**
Castell-nedd Port Talbot	8 (11)	10.1 (13)	13.3 (17)	6.7 (9)	6 (8)
Abertawe	14.8 (34)	12.7 (28)	14.3 (31)	12.3 (28)	16.6 (37)
Cymru	**5.1 (149)**	**7.3 (210)**	**7.1 (205)**	**8.8 (253)**	**9.7 (288)**

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2025

Yr awdurdodau lleol â'r cyfraddau uchaf yn 2024 oedd ardaloedd Awdurdodau Lleol Merthyr Tudful, Abertawe, a Phen-y-bont ar Ogwr (Ffigur 37 a Thabl 13).



Ffigur 37: EASR y marwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau fesul 100,000 o'r boblogaeth yng Nghymru yn ôl awdurdod lleol, 2024

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cyhoeddi EASR cyfartalog treigl tair blynedd ar gyfer pob awdurdod lleol fel rhan o'r adroddiadau blynyddol, er mwyn nodi tueddiadau tymor hwy a rhoi cyfrif am amrywiadau blynyddol mewn marwolaethau (gweler Ffigur 38). Mae cyfartaleddu tair blynedd, ochr yn ochr â'r oedi wrth adrodd ar farwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau, yn golygu na fydd unrhyw effaith ymyriadau diweddar ers cyhoeddi'r adroddiad hwn ddiwethaf yn amlwg yn y data.



Ffigur 38: Cyfartaledd EASR treigl tair blynedd fesul 100,000 o farwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau yng Nghymru, yn ôl awdurdod lleol, 2022-24

3.6.2 Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB)

Roedd cyfradd y marwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau yn BIPAB yn 9.7 marwolaeth fesul 100,000 o'r boblogaeth yn 2024, sef yr un fath â'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae'r gyfradd hon wedi cynyddu o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ac mae'n uwch na chyfraddau'r pum mlynedd blaenorol. Yn 2024, roedd awdurdodau lleol Sir Fynwy a Chasnewydd uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol (gweler Ffigur 39). Mae'r EASR treigl tair blynedd fesul 100,000 o'r boblogaeth yn dangos tuedd gynyddol ar draws yr holl awdurdodau lleol yn y bwrdd iechyd hwn.



Ffigur 39: EASR fesul 100,000 o'r boblogaeth o'r marwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau mewn awdurdodau lleol yn BIPAB, yn ôl blwyddyn, wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio un flwyddyn a thair blynedd o ddata, 2020 i 2024 (mae'r llinellau'n dangos yr EASR ar gyfer blwyddyn unigol ar gyfer 2024)

Opioidau oedd y math o sylwedd a gofnodwyd amlaf yn BIPAB a gofnodwyd yn achos 70.9 y cant o'r marwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau yn y bwrdd iechyd yn 2024, ac roedd opioidau heblaw heroin/morffin yn ymwneud â'r rhan fwyaf ohonynt. Gabapentinoidau oedd y sylwedd mwyaf cyffredin ond un yn dilyn cynnydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a gofnodwyd mewn 34.5 y cant o farwolaethau yn 2024 (gweler Ffigur 40).



Ffigur 40: Nifer y marwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau yn ymwneud â'r chwe grŵp sylweddau a adroddwyd fwyaf yn BIPAB, yn ôl blwyddyn, 2015 i 2024

3.6.3 Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)

Yn 2024, cofnodwyd cyfradd o 7.8 o farwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau fesul 100,000 o'r boblogaeth yn BIPBC, sef cynnydd ar y flwyddyn flaenorol (5.9 o farwolaethau fesul 100,000). Yr unig awdurdodau lleol yn ardal y bwrdd iechyd hwn â chyfradd marwolaethau a oedd yn uwch na chyfartaledd cenedlaethol Cymru oedd Sir Ddinbych. Mae cyfartaleddau treigl tair blynedd yr EASR yn dangos cyfraddau cynyddol yn Sir Ddinbych, Gwynedd ac Ynys Môn, gyda phob awdurdod lleol arall yn BIPBC yn gyffredinol yn gostwng neu'n aros yn sefydlog (gweler Ffigur 41).



Ffigur 41: EASR fesul 100,000 o'r boblogaeth o farwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau mewn awdurdodau lleol yn BIPBC, fesul blwyddyn, wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio un flwyddyn a thair blynedd o ddata, 2020 i 2024 (mae'r llinellau'n dangos yr EASR blwyddyn unigol ar gyfer 2024)

Yn BIPBC, roedd opioidau'n cyfrif am 55.1 y cant o farwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau. Ymhlith y rhain, adroddwyd am heroin/morffin yr un nifer o weithiau ag opioidau eraill yn 2024. Roedd sylweddau eraill a adroddwyd yn aml yn cynnwys cocên a gabapentinoidau (gweler Ffigur 42). Adroddwyd am nitazenes mewn dau farwolaeth yn y rhanbarth hwn.



Ffigur 42: Nifer y marwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau yn ymwneud â'r chwe grŵp sylweddau a adroddwyd fwyaf yn BIPBC, yn ôl blwyddyn, 2015 i 2024

3.6.4 Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Yn 2023, cofnodwyd 8.6 o farwolaethau fesul 100,000 o'r boblogaeth ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, sef cynnydd ar y flwyddyn flaenorol (6.6 o farwolaethau fesul 100,000). Roedd cyfradd y marwolaethau a gofnodwyd yng Nghaerdydd islaw cyfartaledd Cymru yn 2024; fodd bynnag, roedd y gyfradd ym Mro Morgannwg uwchlaw'r cyfartaledd (gweler Ffigur 43). Mae'r EASR gyfartalog dreigl tair blynedd fesul 100,000 o'r boblogaeth yn dangos bod cyfradd marwolaethau ym Mro Morgannwg ar duedd gynyddol.



Ffigur 43: EASR fesul 100,000 o'r boblogaeth o farwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau mewn awdurdodau lleol yn BIPCF, yn ôl blwyddyn, wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio un flwyddyn a thair blynedd o ddata, 2020 i 2024 (mae'r llinellau'n dangos yr EASR blwyddyn unigol ar gyfer 2024)

Cofnodwyd opioidau mewn 76.2 y cant o’r marwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau yn BIPCF yn 2024. O'r rhain, cofnodwyd heroin/morffin mewn 53.1 y cant o farwolaethau oherwydd opioidau, gyda mwy o farwolaethau yn cofnodi heroin/morffin o gymharu ag opioidau eraill. Methadon oedd yn ffurfio mwyafrif yr 'opioidau eraill' a gofnodwyd mewn marwolaethau yn BIPCF yn 2024. Cofnodwyd bensodiasepinau, cocên, a gabapentinoidau yn gyffredin yn y bwrdd iechyd hefyd (gweler Ffigur 44).



Ffigur 44: Nifer y marwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau yn ymwneud â'r chwe grŵp sylweddau a adroddwyd fwyaf yn BIPCF, yn ôl blwyddyn, 2015 i 2024

3.6.5 Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (BIPCTM)

Yn 2024, cyfradd y marwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau oedd 15.0 fesul 100,000 o'r boblogaeth yn BIPCTM, a oedd yn uwch na chyfartaledd Cymru ac yn gynnydd amlwg o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (12.4 fesul 100,000 o'r boblogaeth). BIPCTM oedd â'r gyfradd uchaf o farwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diweddaraf.

Roedd gan Ben-y-bont ar Ogwr a Merthyr Tudful gyfradd marwolaethau uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol yng Nghymru (gweler Ffigur 45). Mae'r EASR gyfartalog dreigl tair blynedd fesul 100,000 o'r boblogaeth yn dangos bod cyfraddau ym mhob awdurdod lleol wedi bod yn cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf.



Ffigur 45: EASR fesul 100,000 o'r boblogaeth o farwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau mewn awdurdodau lleol yn BIPCTM, yn ôl blwyddyn, wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio un flwyddyn a thair blynedd o ddata, 2020 i 2024 (mae'r llinellau'n dangos yr EASR blwyddyn unigol ar gyfer 2024)

Yn BIPCTM, cofnodwyd heroin/morffin mewn 49.2 y cant o'r marwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau yn 2024, ac yna bensodiasepinau ac 'opioidau eraill', a gofnodwyd mewn 33.8 y cant o farwolaethau yr un (gweler Ffigur 46). Gan gynnwys heroin/morffin, cofnodwyd unrhyw opioid mewn 72.3 y cant o farwolaethau ac ymysg y rhai a gofnodwyd amlaf yr oedd heroin/morffin, methadon, a tramadol.



Ffigur 46: Nifer y marwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau yn ymwneud â'r chwe grŵp sylweddau a adroddwyd fwyaf yn BIPCTM, yn ôl blwyddyn, 2015 i 2024

3.6.6 Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (BIPHDd)

Yn 2024, cofnodwyd cyfradd o 8.3 fesul 100,000 o'r boblogaeth o farwolaethau camddefnyddio cyffuriau yn BIPHDd, sef uwchlaw cyfartaledd cenedlaethol Cymru a gostyngiad o gyfradd y flwyddyn flaenorol (11.1 fesul 100,000). Mae'r gyfradd yn Sir Gaerfyrddin yn parhau i fod yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae cyfartaledd treigl tair blynedd cyfradd y marwolaethau yn Sir Gaerfyrddin a Cheredigion wedi cynyddu, tra bod cyfradd y marwolaethau yn Sir Benfro wedi gostwng yn dilyn tuedd gynyddol flaenorol (gweler Ffigur 47).



Ffigur 47: EASR fesul 100,000 o'r boblogaeth o farwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau mewn awdurdodau lleol yn BIPHDd, yn ôl blwyddyn, wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio un flwyddyn a thair blynedd o ddata, 2020 i 2024 (mae'r llinellau'n dangos yr EASR blwyddyn unigol ar gyfer 2024)

Yn 2024, cofnodwyd opioidau mewn 67.9 y cant o’r marwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau yn BIPHDd, ac o'r rhain, cofnodwyd heroin/morffin mewn 68.4 y cant. Roedd sylweddau eraill yn cynnwys bensodiasepinau a chocên (gweler Ffigur 48).



Ffigur 48: Nifer y marwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau yn ymwneud â'r chwe grŵp sylweddau a adroddwyd fwyaf yn BIPHDd, yn ôl blwyddyn, 2015 i 2024

3.6.7 Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Yn 2024, cofnodwyd 2.8 o farwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau fesul 100,000 o'r boblogaeth ym Mhowys, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol a gostyngiad bach o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (3.5 fesul 100,000). Powys oedd â'r gyfradd isaf o unrhyw fwrdd iechyd neu awdurdod lleol yng Nghymru, ac mae'r cyfartaledd treigl tair blynedd yn dangos tueddiad sy'n gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf (gweler Ffigur 49). Dylid dehongli niferoedd a thueddiadau ym Mhowys yn ofalus oherwydd y niferoedd cyson fach.



Ffigur 49: EASR fesul 100,000 o'r boblogaeth o’r marwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau mewn awdurdodau lleol yn BIAP, yn ôl blwyddyn, wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio un flwyddyn a thair blynedd o ddata, 2020 i 2024 (mae'r llinellau'n dangos yr EASR blwyddyn unigol ar gyfer 2023)

Oherwydd y nifer is o farwolaethau a gofnodwyd ym Mhowys o gymharu â byrddau iechyd eraill, nid yw nifer y marwolaethau yn ôl sylwedd wedi'i ddangos. Yn 2024, roedd:

- Pedair marwolaeth yn ymwneud â heroin/morffin
- Un farwolaeth yn ymwneud â gwrth-iselyddion
- Un farwolaeth yn ymwneud â gabapentinoidau

3.6.8 Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (BIPBA)

Yn 2024, cofnodwyd 12.6 o farwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau fesul 100,000 o'r boblogaeth yn BIPBA, sydd uwchlaw cyfartaledd cenedlaethol Cymru ac yn gynnydd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (10.2 fesul 100,000). Cynyddodd y gyfradd yn awdurdod lleol Abertawe yn y flwyddyn flaenorol ac roedd yn uwch na chyfradd Cymru, gyda Chastell-nedd Port Talbot yn gostwng ac yn parhau i fod islaw'r gyfradd genedlaethol. Mae'r EASR gyfartalog dreigl fesul 100,000 o farwolaethau yn y ddau awdurdod lleol yn y bwrdd iechyd wedi aros yn gymharol sefydlog yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda Chastell-nedd Port Talbot yn dangos tuedd am i lawr i ryw raddau yn ystod y blynyddoedd diwethaf (gweler Ffigur 50).



Ffigur 50: EASR fesul 100,000 o'r boblogaeth o’r marwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau mewn awdurdodau lleol yn BIPBA, yn ôl blwyddyn, wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio un flwyddyn a thair blynedd o ddata, 2020 i 2024 (mae'r llinellau'n dangos yr EASR blwyddyn unigol ar gyfer 2024)

Yn BIPBA, adroddwyd am opioidau mewn 53.3 y cant o farwolaethau, ac roedd opioidau heblaw heroin/morffin yn fwy cyffredin (58.3 y cant). Adroddwyd yn gyffredin hefyd am gocên a bensodiasepinau, a hynny mewn 40.0 y cant a 28.9 y cant o’r marwolaethau yn yr ardal, yn y drefn honno (gweler Ffigur 50).



Ffigur 51: Nifer y marwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau yn ymwneud â'r chwe grŵp sylweddau a adroddwyd fwyaf yn BIPBA, yn ôl blwyddyn, 2015 i 2024

4 Adolygiadau o Wenwyno Angheuol a Heb Fod yn Angheuol gan Gyffuriau

Mae adolygiadau o wenwyno angheuol a heb fod yn angheuol gan gyffuriau wedi cael eu cynnal yng Nghymru ers mis Mehefin 2014, yn unol â chanllawiau a gafodd eu datblygu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a'u cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru (gweler 5.2 Atodiad B - Canllawiau ar adolygiadau o achosion o wenwyno angheuol ac nad yw'n angheuol gan gyffuriau). Ers iddynt gael eu cyflwyno, cynhaliwyd 1,680 o adolygiadau o wenwyno angheuol a 1,637 o adolygiadau o wenwyno heb fod yn angheuol. Fodd bynnag, roedd data 2014/15 yn rhannol, ac felly mae wedi'i eithrio o'r adroddiad hwn; o'r herwydd, mae 1,593 o adolygiadau o wenwyno angheuol a 1,463 o adolygiadau o wenwyno nad yw'n angheuol wedi'u proffilio.

Tabl 14: Cyfanswm cronnus yr adolygiadau o wenwyno angheuol a heb fod yn angheuol a gynhaliwyd gan y Bwrdd Iechyd, 2016 i 2024

Bwrdd Iechyd	Adolygiadau o wenwyno angheuol gan gyffuriau	Adolygiadau o wenwyno heb fod yn angheuol gan gyffuriau
Aneurin Bevan	184	23
Betsi Cadwaladr	164	0
Caerdydd a'r Fro	239	11
Cwm Taf Morgannwg	402	113
Hywel Dda	161	0
Powys Teaching	36	4
Bae Abertawe	407	1,312
Cymru	1,593	1,463

Cronfa Ddata Lleihau Niwed Cymru, 2025

Er bod y broses adolygu achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau wedi'i gweithredu'n llawn ar draws holl ranbarthau'r byrddau iechyd, dim ond un rhanbarth, sef Bae Abertawe, sy'n adolygu achosion o wenwyno heb fod yn angheuol ar hyn o bryd, a hynny fel mater o drefn. Mae'r adran ganlynol yn proffilio adolygiadau o achosion o wenwyno angheuol a heb fod yn angheuol gan gyffuriau a gynhaliwyd ledled Cymru fel y'u cofnodwyd ar Gronfa Ddata Lleihau Niwed Cymru (HRD) yn 2024, yn unol â chyfnod adrodd blwyddyn galendr y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS).

4.1 Adolygiadau o Achosion o Wenwyno Angheuol gan Gyffuriau

Yn 2024, cynhaliwyd 211 o adolygiadau o achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau ar draws ardaloedd y saith bwrdd iechyd yng Nghymru (gweler Tabl 15). Mae hyn ychydig yn uwch na'r flwyddyn flaenorol (sef cynnydd o 5.0 y cant), ac yn gyson i raddau helaeth â'r 5 mlynedd flaenorol.

Tabl 15: Adolygiadau o achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau a gynhaliwyd yn ôl Bwrdd Iechyd, ac yn ôl blwyddyn

Bwrdd Iechyd	2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022	2023	2024	Cyfanswm
Aneurin Bevan	16	17	26	13	22	22	24	14	30	184
Bae Abertawe	28	29	11	26	47	70	66	62	68	407
Betsi Cadwaladr	7	17	16	27	32	20	11	26	8	164
Caerdydd a'r Fro	15	11	28	19	30	29	37	39	31	239
Cwm Taf Morgannwg	29	30	34	34	52	46	69	47	61	402
Hywel Dda	19	16	17	20	28	17	23	11	10	161
Powys Teaching	0	0	3	8	7	7	6	2	3	36
Cymru	114	120	135	147	218	211	236	201	211	1,593

Cronfa Ddata Lleihau Niwed Cymru, 2025

Mae cymariaethau â data ynghylch marwolaethau yn sgil Camddefnyddio Cyffuriau y manylir arno'n gynharach yn yr adroddiad hwn yn dangos bod cyfran yr achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau sy'n cael eu hadolygu ledled Cymru yn 2024 yn is (73.3 y cant) na'r rhai a adroddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (gweler Tabl 16). Oherwydd natur gyflym adolygiadau o achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau (h.y. eu cychwyn cyn cael gwybod am unrhyw ddyfarniad gwenwynegol neu ddyfarniad crwner), nid yw pob achos o wenwyno angheuol gan gyffuriau a adolygir yn arwain at ei ddosbarthu fel marwolaeth yn sgil camddefnyddio cyffuriau.

Table 16: Adolygiadau o Achosion o Wenwyno Angheuol gan Gyffuriau a Marwolaethau yn sgil Camddefnyddio Cyffuriau yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2015 i 2024

	2015	2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022	2023	2024
Adolygiadau o achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau	54	114	120	135	147	218	211	236	201	211
Marwolaethau cysylltiedig â chamddefnyddio cyffuriau a gofnodwyd gan SYG (blwyddyn gofrestru)	168	192	185	208	165	149	210	205	253	288
Marwolaethau cysylltiedig â chamddefnyddio cyffuriau a gofnodwyd gan SYG (blwyddyn wirioneddol y farwolaeth)	186	183	176	224	193	224	214	254	202	-
% yr achosion a adolygwyd o gymharu ag achosion a gofnodwyd gan y SYG (blwyddyn gofrestru))	32.1%	59.4%	64.9%	64.9%	89.1%	146.3%	100.5%	115.1%	79.4%	73.3%
% yr achosion a adolygwyd o gymharu ag achosion a gofnodwyd gan y SYG (blwyddyn wirioneddol y farwolaeth)	29%	62.3%	68.2%	60.3%	76.2%	97.3%	98.6%	92.9%	99.5%	-

Cronfa Ddata Lleihau Niwed Cymru, 2025

4.1.1 Demograffeg

Y band oedran mwyaf cyffredin a adroddwyd yn 2024 oedd y grŵp oedran 40-49 oed, sef 39.8 y cant (n=84) o'r adolygiadau o wenwyno angheuol. Yr oedran canolrifol yw 44, sy'n gyson â'r flwyddyn flaenorol (gweler Tabl 17).

Ymhlith benywod, roedd cynnydd yng nghyfran y marwolaethau a adolygwyd ar gyfer y rhai dros 40 oed ac o dan 25 oed, ond gostyngiad yn y rhai rhwng 25 a 39 oed (gweler Ffigur 51).

Ymhlith gwrywod, gostyngodd cyfran y marwolaethau a adolygwyd ymhlith y rhai dros 50 oed ac o dan 25 oed, ond gwelwyd cynnydd yn y rhai rhwng 25 a 49 oed.

Roedd cymariaethau o oedrannau canolrifol a dosbarthiad y grwpiau oedran rhwng achosion a fu'n cynnwys gwrywod a benywod yr un peth, gydag oedran canolrifol o 44 oed yn cael ei adrodd ar gyfer gwrywod a benywod.

Tabl 17: Demograffeg adolygiadau o achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau yng Nghymru, 2016 i 2024

Demograffig	2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022	2023	2024
Adolygiadau o achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau	114	120	135	147	218	211	236	201	211
% Dynion*	81.6%	77.5%	83.7%	77.6%	76.6%	82.0%	76.3%	79.1%	79.6%
Oedran canolrifol (blynyddoedd)	38	36	41	40	41	42	43	44	44
Isafswm oedran (blynyddoedd)	19	16	15	13	17	10	12	15	19
Uchafswm oedran (blynyddoedd)	56	78	65	69	67	63	84	71	77
% mewn tai anniogel /Dim Cartref Sefydlog*	40.8%	26.2%	32.5%	33.0%	41.5%	43.2%	46.4%	46.5%	42.3%
% O dan 25*	8.8%	9.2%	7.4%	9.5%	6.9%	6.2%	5.9%	5.5%	4.7%
% Dros 50*	7.0%	11.7%	14.8%	19.0%	16.5%	19.0%	22.0%	29.4%	28.0%

* Cyfran yr unigolion lle mae data wedi cael eu darparu gan wasanaethau a'u cofnodi ar y Gronfa Ddata Lleihau Niwed



Ffigur 52: Rhyw ac ystod oedran adeg marwolaeth ar gyfer achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau a adolygwyd yng Nghymru, 2016 i 2024

Ceisir gwybodaeth am statws tai ar gyfer pob achos a adolygwyd ac fe'i hadroddwyd ar gyfer 49.3 y cant (n=104) o achosion a adolygwyd yn 2024, sef cynnydd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Lle roeddent yn hysbys i wasanaethau, rhestrwyd 42.3 y cant o achosion fel rhai a fu'n byw mewn tai ansicr (e.e. llety

hostel) neu heb gartref sefydlog (e.e. digartref ar y stryd, 'syrffio soffas'). Gostyngodd cyfran yr achosion a restrir fel rhai sy'n byw mewn tai ansicr neu heb gartref sefydlog yn 2024 am y tro cyntaf ers 2017. Mae ystadegau arbrofol a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn awgrymu y gallai marwolaethau sy'n gysylltiedig â gwenwyno gan gyffuriau ymhlith pobl ddigartref fod yn gostwng ledled Cymru a Lloegr yn ystod y blynyddoedd diwethaf.[6]

4.1.2 Amgylchiadau a natur y farwolaeth

Lleoliad yr achos o wenwyno angheuol gan gyffuriau

Cofnodwyd lleoliad y farwolaeth ar gyfer 66.4 y cant (n=140) o'r holl adolygiadau o achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau yn 2024. O'r rhain, preswylfeydd preifat oedd y lleoliad mwyaf cyffredin o hyd, a oedd yn cyfrif am 85.7 y cant o achosion (n=120). O gymharu â'r blynyddoedd blaenorol, mae nifer yr achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau mewn cartrefi preifat wedi cynyddu, yn benodol yng nghartrefi'r unigolion eu hunain, gyda gostyngiadau'n cael eu hadrodd mewn hosteli yn y blynyddoedd diweddaraf (gweler Ffigur 53).



Ffigur 53: Lleoliad y farwolaeth ar gyfer achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau a adolygwyd, 2016 i 2024

[6] Marwolaethau pobl ddigartref yng Nghymru a Lloegr: cofrestriadau 2021. 2022. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/deaths/bulletins/deathsofhomelesspeopleinenglandandwales/2021registrations#causes-of-death-among-homeless-people

Lle cawsant eu hadrodd (n=140), cyhoeddwyd bod 88.6 y cant (n=124) o achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau wedi marw yn y fan a'r lle. Cyhoeddwyd bod y 11.4 y cant o achosion sy'n weddill yn farw mewn lleoliad eilaidd fel yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys neu yn yr ysbyty.

Ymgeisiau i adfywio

Yn ystod 2024, roedd data mewn perthynas ag ymgeisiau i adfywio ar gael ar gyfer 62.1 y cant o achosion (n=131; gweler Tabl 18). O'r rhain:

- Ceisiwyd adfywio mewn 37.4 y cant (n=49) o'r achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau a adolygwyd, sef nifer a chyfran uwch nag yn 2023.
- Lle darparwyd adfywio, adroddwyd am ddefnyddio THN mewn 24.5 y cant (n=12) o achosion.
- Lle na chafodd manylion adfywio eu hadrodd (naill ai 'ddim yn hysbys' neu 'dim ymgais i adfywio') a lle cofnodwyd y lleoliad lle cyhoeddwyd y farwolaeth (n=91), cyhoeddwyd y farwolaeth yn y fan a'r lle ar gyfer 95.6 y cant (n=87) o achosion, sy'n dangos y gallai ymgeisiau i adfywio fod wedi bod yn aneffeithiol adeg y darganfyddiad.

Tabl 18: Cyfran yr achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau lle ceisiwyd adfywio, 2016 i 2024

	2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022	2023	2024
Achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau a adolygwyd	**114**	**120**	**135**	**147**	**218**	**211**	**236**	**201**	**211**
% yr achosion lle y cofnodwyd ymdrech i ddadebru	49.1%	45.8%	55.6%	43.5%	50.0%	62.6%	63.6%	52.2%	62.1%
% lle y ceisiwyd dadebru'r unigolyn	64.3%	67.3%	44.0%	50.0%	50.5%	42.4%	32.0%	36.2%	37.4%
% lle y defnyddiwyd THN (lle y ceisiwyd dadebru'r unigolyn)	22.2%	18.9%	36.4%	25.0%	29.1%	21.4%	29.2%	26.3%	24.5%

Sylweddau a ddarganfuwyd yn y lleoliad

Fel rhan o'r broses adolygu, cesglir gwybodaeth mewn perthynas â sylweddau a chyfarpar amheus a geir yn y lleoliad adeg yr adroddiad cychwynnol. Yn 2024, cofnodwyd yr wybodaeth hon ar gyfer 66.4 y cant o achosion (n = 140; gweler Tabl 19). O'r rhain:

- Cafwyd sylweddau yn lleoliad y farwolaeth mewn 65.7 y cant o'r marwolaethau a adolygwyd
- Cafwyd hyd i gyfarpar (e.e. nodwyddau, chwistrelli, llwyau a hidlwyr) yn y lleoliad mewn 68.6 y cant o farwolaethau.

Tabl 19: Adolygiadau o achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau lle canfuwyd sylweddau a/neu gyfarpar yn y lleoliad, 2016 i 2024

	2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022	2023	2024
Achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau a adolygwyd	**114**	**120**	**135**	**147**	**218**	**211**	**236**	**201**	**211**
% yr achosion lle y cofnodwyd presenoldeb sylweddau	82.5%	78.3%	85.2%	74.1%	73.4%	80.1%	80.1%	58.2%	66.4%
% lle y daethpwyd o hyd i sylweddau yn y lleoliad	40.4%	47.9%	42.6%	57.8%	59.4%	69.2%	59.3%	59.8%	65.7%
% yr achosion lle y cofnodwyd presenoldeb cyfarpar	82.5%	78.3%	85.2%	74.1%	73.4%	80.1%	80.1%	58.2%	66.4%
% lle y daethpwyd o hyd i gyfarpar yn y lleoliad	56.4%	50.0%	40.0%	55.0%	51.9%	58.0%	51.9%	51.3%	68.6%

4.1.3 Adborth gan Wasanaethau

Yn rhan o'r broses adolygu achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau, anfonir ceisiadau am wybodaeth at wasanaethau lleol gan y Cydlynydd Adolygu Achosion (CRC) er mwyn canfod hanes cysylltu a hanes ymgysylltu, a gwybodaeth sy'n cynorthwyo'r gwaith o gynnal yr adolygiad (gweler Atodiad B). Ar gyfer yr achosion hynny o wenwyno angheuol gan gyffuriau a adolygwyd yn 2024, y nifer canolrifol o wasanaethau y cysylltwyd â nhw gan Ganolfannau Adsefydlu Cymunedol i ddarparu gwybodaeth oedd 6 gwasanaeth fesul achos, sy'n gyson â'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, mae nifer y gwasanaethau y cysylltwyd â nhw am wybodaeth yn parhau i amrywio ar draws rhanbarthau BCA (gweler Tabl 20).

Tabl 20: Nifer canolrifol y gwasanaethau y cysylltwyd â nhw trwy'r HRD am wybodaeth fesul achos o wenwyno angheuol gan gyffuriau yn ôl rhanbarth BCA, 2016 i 2024

	Ystod (ganolrifol)								
Bwrdd Iechyd	**2016**	**2017**	**2018**	**2019**	**2020**	**2021**	**2022**	**2023**	**2024**
Aneurin Bevan	22 (20-24)	19 (16-22)	17 (16-19)	16 (2-19)	14 (10-20)	12 (7-15)	10.5 (10-20)	12 (8-24)	12.5 (11-24)
Betsi Cadwaladr	9 (8-12)	11 (7-15)	8 (6-14)	8 (6-9)	8 (6-8)	8 (7-11)	9 (8-9)	9 (8-11)	8 (6-8)
Caerdydd a'r Fro	19 (16-20)	21 (18-21)	23 (1-27)	22 (1-26)	21 (16-27)	17 (14-20)	14 (12-15)	13 (12-14)	14 (12-14)
Cwm Taf Morgannwg	7 (4-14)	7 (5-8)	7 (4-19)	6 (4-13)	6 (4-9)	6 (4-8)	6 (4-10)	6 (4-8)	6 (2-8)
Hywel Dda	5 (4-6)	5 (5-10)	6 (5-7)	5 (5-7)	5 (4-6)	5 (5-6)	6 (5-6)	5 (5-6)	5 (5-5)
Powys			32 (32-33)	33 (17-33)	33 (30-33)	33 (1-33)	3 (1-24)	6.5 (1-12)	3 (3-3)
Bae Abertawe	11 (7-13)	13 (10-16)	17 (10-19)	12 (10-17)	10 (6-12)	7 (1-9)	2 (1-7)	1 (1-4)	1 (1-3)
Cymru	**9 (4-24)**	**12 (5-22)**	**16 (1-33)**	**8 (1-33)**	**8 (4-33)**	**7 (1-33)**	**6 (1-24)**	**6 (1-24)**	**6 (1-24)**

Mae'r gallu i gynnal adolygiadau ystyrlon a chadarn o achosion o wenwyno gan gyffuriau yn dibynnu ar ansawdd yr wybodaeth a ddarperir ynghylch yr amgylchiadau sy'n ymwneud â'r achos a hanes personol yr unigolyn a allai fod wedi dylanwadu ar achos o wenwyno gan gyffuriau o ran ei atal. Felly, mae cynnal rhwydweithiau gwasanaeth sydd wedi'u strwythuro'n dda fel rhan o bob panel adolygu yn hanfodol er mwyn sicrhau y ceir gwybodaeth amserol a chywir.

Cysylltiadau hysbys â gwasanaethau

Ymhlith yr holl 211 o achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau a adolygwyd yn 2024:

- Roedd yn hysbys bod unigolion wedi bod mewn cysylltiad ag unrhyw wasanaeth o fewn 12 mis cyn y farwolaeth yn achos 57.8 y cant o achosion (n= 122), yn debyg i'r blynyddoedd diwethaf.
- Roedd yn hysbys bod unigolion wedi bod mewn cysylltiad ag unrhyw wasanaethau o fewn 1 mis cyn y farwolaeth mewn 31.3 y cant o achosion (n=66)
- Adroddwyd 'Dim cyswllt hysbys' neu ddim cyswllt â gwasanaethau o fewn 12 mis cyn y farwolaeth mewn 42.2 y cant o achosion (n=89). O'r rhain, nid oedd 54 o unigolion yn hysbys i unrhyw wasanaethau.
- Lle'r oedd yn hysbys i wasanaethau camddefnyddio sylweddau lleol (n=114), roedd 65.8 y cant (n=75) wedi cael cysylltiad â gwasanaeth camddefnyddio sylweddau, gan gynnwys y Gwasanaeth Troseddwyr Integredig (IOS), yn y 12 mis cyn y farwolaeth



Ffigur 54: Y cyfnod o amser ers y cysylltiad olaf hysbys ag unrhyw wasanaeth ar gyfer achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau, 2016 i 2024

Hanes hysbys o ddefnyddio sylweddau

Roedd yr hanes o ddefnyddio sylweddau yn hysbys ac wedi'i adrodd ar gyfer 103 (84.4 y cant) o'r achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau a adolygwyd lle bu'r unigolyn mewn cysylltiad â gwasanaethau yn ystod y 12 mis cyn ei farwolaeth (n=122). O'r rhain, cofnodwyd hanes o ddefnyddio amryw gyffuriau mewn dros ddwy ran o dair o'r achosion a adolygwyd (70.5 y cant), yn gyson â blynyddoedd blaenorol (gweler Ffigur 55). Er bod cyfrannau'n parhau'n gymharol sefydlog ar draws y rhan fwyaf o gategorïau, bu cynnydd cyson yng nghyfran yr achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau â hanes hysbys o ddefnyddio cocên / crac ers 2016. Gwelwyd tuedd ostyngol yn y gyfran sydd â hanes o heroin, opioidau eraill, ac symbylyddion eraill hefyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae achosion o

wenwyno angheuol gan gyffuriau gyda hanes hysbys o bensodiasepinau wedi amrywio dros amser, gan ei gwneud hi'n anodd nodi tueddiadau.



Ffigur 55: Cyfran yr achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau lle adroddwyd am hanes sylweddau yn ystod y 12 mis diwethaf, yn ôl sylwedd, 2016 i 2024

Iechyd meddwl

Yn 2024, roedd gan 55.0 y cant (n=116) o'r holl achosion angheuol a adolygwyd hanes o salwch meddwl neu anhwylder seiciatrig wedi'i ddiagnosio wedi'i gofnodi.[7] Oherwydd strwythur a natur ansoddol adrodd trwy'r HRD, ni ellir darparu unrhyw wybodaeth bellach ar hyn o bryd yn yr adroddiad hwn mewn perthynas â natur a chyfredoldeb salwch meddwl / ymddygiad hunan-niweidio a adroddwyd. Fodd bynnag, defnyddir yr wybodaeth hon i gynorthwyo'r gwaith o adolygu achosion o

[7] Mae niferoedd sy'n ymwneud ag iechyd meddwl wedi'u crynhoi yn seiliedig ar sylwadau testun rhydd a dylid eu dehongli'n ofalus a'u trin fel brasamcan.

wenwyno angheuol gan gyffuriau a datblygu argymhellion ar lefel leol a rhanbarthol yng Nghymru fesul achos.

4.1.4 Casgliad a chanfyddiadau'r crwner

Canllawiau ar gyfer cynnal Adolygiadau o Achosion o Wenwyno Angheuol / a Heb Fod yn Angheuol, mae Cronfa Ddata Gwenwyno gan gyffuriau'r HRD yn darparu ymarferoldeb ar gyfer cofnodi canfyddiadau terfynol y crwner ar gyfer adolygu pob achos o wenwyno angheuol gan gyffuriau. Mae natur gyflym y broses adolygu achosion o wenwyno gan gyffuriau yn ei gwneud yn ofynnol i bob achos gael ei drin fel 'achosion tybiedig o wenwyno gan gyffuriau' nes y cadarnheir fel arall. Felly mae'r broses o baru canfyddiadau adolygiadau ochr yn ochr â chasgliadau crwneriaid yn rhan annatod o ddatblygu argymhellion cadarn a deall natur gwenwyno gan gyffuriau yng Nghymru yn well.

Ers 2016, roedd gan 35.3 y cant (n=563) o achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau gofnod o ganfyddiadau crwner wedi'u cofnodi ar yr HRD (gweler Tabl 21). Mae nifer absoliwt a chyfran yr holl adolygiadau o achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau wedi cynyddu o gymharu â'r flwyddyn flaenorol ond mae'n parhau'n is ar y cyfan na'r blynyddoedd diwethaf.

Tabl 21: Nifer yr achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau a adolygwyd lle cofnodwyd canfyddiadau'r crwner ar y Gronfa Ddata Lleihau Niwed, 2016 i 2024

	2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022	2023	2024	Total
Achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau a adolygwyd	**114**	**120**	**135**	**147**	**218**	**211**	**236**	**201**	**211**	**1,593**
Achosion lle y cofnodwyd canfyddiadau'r crwner	33	50	60	36	71	89	95	59	70	563
% yr achosion lle y cofnodwyd canfyddiadau'r crwner	28.9%	41.7%	44.4%	24.5%	32.6%	42.2%	40.3%	29.4%	33.2%	35.3%

Lle rhestrwyd canfyddiadau'r crwner ar yr HRD, cadarnhawyd casgliad 'cysylltiedig â chyffuriau' mewn 92.9 y cant (n=65) o achosion (gweler Tabl 22). Achosion naturiol, damweiniau/anffawd, hunanladdiad, a chasgliadau heb eu dosbarthu oedd yn ffurfio'r 7.1 y cant o achosion sy'n weddill.

Tabl 22: Cyfran yr achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau a adolygwyd lle cofnodwyd canfyddiadau'r crwner, a chyfran lle cadarnhawyd casgliad 'cysylltiedig â chyffuriau', yn ôl bwrdd iechyd, yn 2024

Bwrdd Iechyd	Achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau a adolygwyd s	% lle y cofnodwyd canfyddiadau'r crwner	% lle y cadarnhawyd casgliad 'cysylltiedig â chyffuriau'
Aneurin Bevan	30	40%	100%
Betsi Cadwaladr	8	-	-
Caerdydd a'r Fro	31	-	-
Cwm Taf Morgannwg	61	-	-
Hywel Dda	10	-	-
Powys	3	-	-
Bae Abertawe	68	85.3%	91.4%
Cymru	211	33.2%	92.9%

4.2 Adolygiadau o achosion o Wenwyno Heb Fod yn Angheuol gan Gyffuriau

Gall achosion blaenorol o wenwyno gan gyffuriau / gorddosau cyffuriau a oedd heb fod yn angheuol ragfynegi achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau wedi hynny. Dengys ymchwil mai cyfran gyfartalog yr achosion o wenwyno heb fod yn angheuol ymhlith unigolion yr oedd ganddynt hanes gydol oes o gael eu gwenwyno gan gyffuriau oedd dau achos a oroeswyd bob blwyddyn.[8]

Mae adolygiadau amlddisgyblaethol cyflym o wenwyno heb fod yn angheuol gan gyffuriau yn darparu cyswllt uniongyrchol â'r rhai sydd wedi profi achos o wenwyno heb fod yn angheuol a chynigir cymorth i ymwneud â gwasanaethau triniaeth cyffuriau. Yn 2024, cynhaliwyd 143 o adolygiadau o wenwyno heb fod yn angheuol gan gyffuriau ar draws byrddau iechyd a gymerodd ran yng Nghymru (gweler Tabl 23); dyma ostyngiad o 15.4 y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Tabl 23: Adolygiadau o wenwyno heb fod yn angheuol gan gyffuriau a gynhaliwyd yn ôl Bwrdd Iechyd, 2016 i 2024

Bwrdd Iechyd*	2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022	2023	2024	Cyfanswm
Aneurin Bevan	3	3	1	4	12	0	0	0	0	23
Caerdydd a'r Fro	7	0	0	0	4	0	0	0	0	11
Cwm Taf Morgannwg	35	9	18	46	5	0	0	0	0	113
Powys	0	0	0	0	0	0	0	2	2	4
Bae Abertawe	123	114	125	94	214	170	164	167	141	1,312
Cymru	168	126	144	144	235	170	164	169	143	1,463

* This table only includes health boards with any recorded non-fatal drug poisoning reviews over the period. Therefore Betsi Cadwaladr and Hywel Dda University Health Boards are not shown.

[8] Holloway KR, Bennett TH, a Hills R (2016). Non-fatal overdose among opiate users in Wales: A national survey. *Journal of Substance Use*; Ar gael yn: https://www.tandfonline.com/doi/abs/10.3109/14659891.2015.1063718

4.2.1 Demograffeg

Dangosir y proffiliau demograffig ar gyfer y 143 o adolygiadau o achosion o wenwyno heb fod yn angheuol gan gyffuriau yn 2024 yn Nhabl 24. Mae cymariaethau demograffig yn dangos bod achosion o wenwyno heb fod yn angheuol gan gyffuriau a adolygwyd yn gyson iau nag achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau (yr oedran canolrifol oedd 36 oed, o gymharu â 44 oed yn y drefn honno).

Mae oedran canolrifol achosion o wenwyno heb fod yn angheuol gan gyffuriau wedi aros yn gymharol gyson dros yr wyth mlynedd diwethaf, tra bod cyfran yr achosion o dan 25 oed a thros 50 oed wedi gostwng yn 2024. Gostyngodd cyfran yr achosion oedd yn wrywod yn 2024.

Ceisiwyd gwybodaeth am statws tai ar gyfer pob achos a adolygwyd a, lle'r oedd yn hysbys i'r gwasanaethau, rhestrwyd tua hanner (48.1 y cant) yr achosion fel rhai a oedd yn byw mewn tai ansicr (e.e. llety hostel) neu heb gartref sefydlog (e.e. digartref ar y stryd, 'syrffio soffas'). Roedd cyfran yr achosion o wenwyno heb fod yn angheuol gan gyffuriau a restrir fel byw mewn tai ansicr neu heb gartref sefydlog yr isaf a gofnodwyd erioed yn 2024.

Tabl 24: Demograffeg adolygiadau o achosion o wenwyno heb fod yn angheuol gan gyffuriau: Cymru Gyfan, 2016 i 2024

Demograffig	2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022	2023	2024
Achosion o wenwyno heb fod yn angheuol gan gyffuriau a adolygwyd	168	126	144	144	235	170	164	169	143
% Dynion*	73.8%	77.0%	81.9%	72.2%	73.2%	68.2%	76.2%	76.9%	67.8%
Oedran canolrifol (blynyddoedd)	35	33	35	35	34	36	37	37	36
Isafswm oedran (blynyddoedd)	18	18	19	16	15	16	12	14	17
Uchafswm oedran (blynyddoedd)	57	56	118	56	78	67	58	63	62
% mewn tai anniogel /Dim Cartref Sefydlog*	59.4%	57.1%	52.2%	64.4%	52.7%	53.3%	67.7%	51.4%	48.1%
% O dan 25*	10.7%	8.7%	5.6%	16.0%	20.4%	12.9%	14.6%	22.5%	17.5%
% Dros 50*	5.4%	5.6%	11.8%	6.9%	7.7%	9.4%	7.3%	14.2%	7.7%

*Cyfran yr unigolion lle mae data wedi cael eu darparu gan wasanaethau a'u cofnodi ar y Gronfa Ddata Lleihau Niwed

5 Atodiadau

5.1 Atodiad A - Diffiniadau a nodiadau ar ddehongli data

Mae 'marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau' fel arfer yn cwmpasu dau fesur. Fel arfer, disgrifir marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau cyfreithlon ac anghyfreithlon fel 'marwolaethau yn sgil gwenwyno gan gyffuriau'. Mae 'marwolaethau camddefnyddio cyffuriau', sef y mesur a ffefrir ar gyfer dadansoddi marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau yng nghyd-destun strategaethau camddefnyddio sylweddau, yn cynnwys cyffuriau anghyfreithlon yn unig (h.y. y rhai a reolir o dan Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971 ac nad ydynt wedi'u rhagnodi i'r unigolyn). Felly mae marwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau yn is-set o 'farwolaethau yn sgil gwenwyno gan gyffuriau' a 'marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau'. Mae'r holl ffigurau yn y ddogfen hon yn cyfeirio at farwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau oni nodir yn wahanol.

Mae marwolaethau yn sgil gwenwyno gan gyffuriau a chamddefnyddio cyffuriau yn cael eu nodi gan ddefnyddio 10fed argraffiad codau Dosbarthiad Rhyngwladol Clefydau (codau ICD-10). Pan fo achos sylfaenol y farwolaeth wedi'i ddosbarthu gan god sy'n nodi:

- Anhwylderau meddyliol ac ymddygiadol oherwydd defnyddio cyffuriau (ac eithrio alcohol a thybaco)
- Gwenwyno damweiniol gan gyffuriau, meddyginiaethau a sylweddau biolegol
- Hunan-wenwyno bwriadol gan gyffuriau, meddyginiaethau a sylweddau biolegol
- Gwenwyno gan gyffuriau, meddyginiaethau a sylweddau biolegol, bwriad anhysbys
- Ymosodiad gan gyffuriau, meddyginiaethau a sylweddau biolegol

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) yn dosbarthu'r farwolaeth fel un 'sy'n gysylltiedig â chyffuriau.' Mae 'marwolaethau yn sgil gwenwyno gan gyffuriau' yn cynnwys pob marwolaeth a ddosbarthir felly; mae 'marwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau' yn cynnwys y marwolaethau hynny lle mae sylwedd a reolir o dan Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971 (MDA) wedi'i nodi. Noder, am fod modd ychwanegu sylweddau at y diffiniadau sydd wedi'u cynnwys yn y Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau trwy is-ddeddfwriaeth, mae niferoedd marwolaethau a gyhoeddwyd yn flaenorol yn destun adolygiad. Ar ben hynny, nid yw fel arfer yn bosibl gwahaniaethu rhwng heroin a morffin mewn profion gwenwynegol ar bobl ymadawedig, ac felly disgrifir marwolaethau sy'n ymwneud â'r sylweddau hyn yn gonfensiynol fel 'heroin/morffin'. Noder hefyd fod gwenwyno bwriadol a gwenwyno â bwriad amhenodol yn cael eu categoreiddio gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol fel 'hunanladdiad'.

Fel arfer, adroddir ffigurau ar gyfer marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau yn ôl blwyddyn cofrestru'r farwolaeth. Mae pob marwolaeth lle ystyrir bod defnyddio

cyffuriau anghyfreithlon yn ffactor posibl yn cael ei chyfeirio at Grwner, sy'n arwain at oedi rhwng marwolaeth a chofrestru. Mae'r oedi hwn yn ei dro yn golygu bod nifer sylweddol o farwolaethau'n cael eu cofrestru mewn blwyddyn wahanol i'r un y gwnaethant ddigwydd ynddi. Er bod adrodd yn ôl y flwyddyn gofrestru yn galluogi dadansoddi rhestr gynhwysfawr o farwolaethau ac yn caniatáu cymhariaeth rhwng gwledydd y DU, gall newidiadau o ran faint o amser y mae'n ei gymryd i gofrestru marwolaethau yn sgil camddefnyddio cyffuriau gelu neu fwyhau tueddiadau blynyddol yn y data.

Mae rhagor o fanylion am y dulliau a ddefnyddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol i nodi marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau i'w cael yn:

http://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/deaths/bulletins/deathsrelatedtodrugpoisoninginenglandandwales/2015registrations#quality-and-methodology

5.2 Atodiad B - Canllawiau ar adolygiadau o achosion o wenwyno angheuol a heb fod yn angheuol gan gyffuriau

Ym mis Mehefin 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau, a ddatblygwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn amlinellu'r fframwaith a'r gweithdrefnau mewn perthynas ag adolygu achosion o wenwyno angheuol a heb fod yn angheuol gan gyffuriau yng Nghymru (ar gael yn: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-02/canllawiau-ar-gyfer-cynnal-adolygiadau-o-wenwyno-angheuol-ac-nad-ywn-angheuol-gan-gyffuriau-yng-nghymru.pdf) . Mae'r fframwaith, a ddatblygwyd yn unol â phrif amcanion Cynllun Cyflawni Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Llywodraeth Cymru 2013-15 (Canlyniad 3.1), yn darparu canllawiau i bob rhanddeiliad yng Nghymru sydd â chylch gwaith i leihau achosion o wenwyno angheuol a heb fod yn angheuol gan gyffuriau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau. Mae hyn yn cwmpasu pob cam ar gyfer adolygu effeithiol gan gynnwys cychwyn, gweithio amlddisgyblaethol a chasglu data, ac adnabod, gweithredu a lledaenu argymhellion a gwersi a ddysgwyd.

Mae gweithredu'r canllawiau yn disodli'r broses adolygu gyfrinachol flaenorol lle'r oedd achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau yn cael eu hadolygu ar ôl cwest y crwner. O dan y canllawiau newydd, cynhelir 'adolygiadau o achosion' yn lleol a'u cychwyn cyn gynted â phosibl ar ôl yr achos o wenwyno angheuol gan gyffuriau. Trwy hynny, darparwyd gwybodaeth fwy amserol mewn perthynas ag amgylchiadau mewn perthynas â'r farwolaeth a lle mae'r dystiolaeth orau yn dangos y gellid dysgu gwersi. Tynnodd y broses adolygu gyfrinachol sylw at y gofyniad am Baneli Adolygu Marwolaethau sy'n Gysylltiedig â Chyffuriau, lle gall gweithio gyda'r gymuned ac mewn partneriaeth ategu'r gwaith o nodi argymhellion sydd â'r nod o leihau achosion o wenwyno angheuol a heb fod yn angheuol gan gyffuriau yn lleol ac yn genedlaethol.

Yn wahanol i'r canllawiau hanesyddol, mae'r canllawiau diweddaraf nid yn unig yn pennu’r gwaith o adolygu achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau ond hefyd yn ychwanegu achosion o wenwyno heb fod yn angheuol gan gyffuriau (darperir diffiniadau o achosion yn y canllawiau). Mae Cydlynydd Adolygu Achosion (CRC) enwebedig fel y'i nodwyd gan Grŵp Lleihau Niwed y Bwrdd Cynllunio Ardal (BCA) lleol yn gyfrifol am adolygu'r ddau fath o wenwyno. Mae'r CRC yn cydlynu gweithio mewn partneriaeth a gweithio cydweithredol rhwng gwasanaethau'r Crwner a gwasanaethau cymorth yn yr ardal leol er mwyn ategu amgylchiadau sy'n gysylltiedig â marwolaeth a sicrhau bod gwybodaeth gywir ar gael i'w dadansoddi. Mae hyn yn cynnwys lledaenu a choladu ceisiadau am wybodaeth, a sefydlu cyfarfodydd adolygu aml-asiantaeth i asesu tystiolaeth, a chanfod y gwersi a ddysgwyd.

Er mwyn monitro hynt y canllawiau yng Nghymru, sefydlwyd Bwrdd Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Atal Achosion o Wenwyno gan Gyffuriau, gan fod yn gyfrifol am sicrhau bod Byrddau Iechyd/Byrddau Cynllunio Ardal a phob rhanddeiliad arall yn rhoi'r argymhellion presennol a'r rhai sy'n datblygu ar waith yn llawn yn unol â'r adolygiadau. At hynny, rôl y Bwrdd Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Atal Gwenwyno gan Gyffuriau yw gweithio ochr yn ochr â chyrff aelodaeth proffesiynol, e.e. Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol Cymru, a chydweithio â chyrff perthnasol eraill yn y DU ac Ewrop sy'n gyfrifol am leihau nifer y marwolaethau sy’n gysylltiedig â chyffuriau ac achosion o wenwyno heb fod yn angheuol.

Er mwyn sicrhau bod data’n cael ei gasglu’n amserol ac yn gywir mewn perthynas ag adolygiadau o achosion o wenwyno angheuol a heb fod yn angheuol gan gyffuriau, mae Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cefnogi’r gwaith o ddatblygu datblygiad cronfa ddata gadarn trwy'r Gronfa Ddata Lleihau Niwed (HRD). Mae'r HRD yn darparu system ganolog ar gyfer storio a choladu data yn ddiogel, ynghyd â mecanwaith lle gall y CRC ofyn am wybodaeth gan bob rhanddeiliad sy'n ymwneud ag adolygu achos o wenwyno gan gyffuriau.